# Y DINESYDD

Ebrill 2025 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 496 £1.50

Llun: BBC Cymru Fyw





Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

GORFFENNAF–AWST 1976

RHIF 32

**CROESO I 1984 !**

RHIFYN 'STEDDFOD ABERTEIFI

O'r diwedd, mae gobaith y cawn weld datblygiadau gwirioneddol adeiladol mewn addysg Gymraeg yn y sir hon yn y dyfodol agos. Bron flwyddyn wedi'r cyfarfod tyngedfennol rhwng rhieni Ysgol Gymraeg Bryntaf a Chyfarwyddwr Addysg De Morgannwg, Mr Fred Adams, pan roddodd y Cyfarwyddwr eli ar friwiau Bryntaf drwy son am greu rhagor o ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd (*Y Dinesydd*, Gorffennaf-Awst 1976), mae argymhellion pendant er sicrhau'r cam pwysig hwn ymlaen wedi gweld golau ddydd.

**Tair Ysgol**

Ar yr 17eg o Fehefin, yng nghyfarfod Pwyllgor Ysgolion Cyngor Sir De Morgannwg, derbyniwyd cynllun y Cyfarwyddwr Addysg, fel sail i ymgynghori pellach. Arfaethir sefydlu ysgolion cynradd Cymraeg yn ysgolion y Coed Glas (Llanishen), 1977, ac Eglwys Wen (Yr Eglwys Newydd) a Peter Lea (Y Tyllgoed) ym 1978, pan fyddai ysgol bresennol Bryntaf yn cau. Byddai hyn yn bosibl yn y lleoedd yma ...

... eisoes wedi cyrraedd oed ymadael, a'r ysgol wedi troi'n Ysgol Uwchradd Gymraeg lewyrchus.

**Glantaf yn rhy fach?**

Does 'na'r un lle i amau na fydd yr un peth yn digwydd yng Nglantaf, a bwrw mai yno y sefydlir yr ysgol newydd. Yn wir, y broblem yw a fydd Glantaf, cyn bo hir iawn, yn ddigon mawr i allu rhoi addysg uwchradd ddwyieithog i bawb a'i mynn o blith plant De Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae 921 o blant mewn

*GERAINT JARMAN, bardd, dramodydd, actor — a chanwr pop. (Gweler tud. 9.)*

**Cofio Geraint Jarman - tud. 8**

**Colofn newydd gan fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd - tud. 10**

**Cyflwyno Gwyddoniaeth: Dr Bedwyr ab Ion Thomas - tud. 27**





# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Dr Elen Ifan**

***Golygydd Mai***

***Dr Miranda Morton***
Cyfraniadau erbyn **27 Ebrill** at:
miranda.cymru@gmail.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd

## Golygyddol - Elen Ifan



Croeso i rifyn mis Ebrill *Y Dinesydd!* Dwi'n gobeithio'n fawr y byddwch yn mwynhau ei darllen. Cewch rhwng y cloriau hanesion y capeli a'r eglwysi, hynt cyfarfodydd rhai o'r cymdeithasau prysur yn y ddinas a'i chyffiniau, yn ogystal â'r colofnau rheolaidd. Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Braf darllen bod cymaint o ddathlu Gŵyl Ddewi wedi bod gan ein cyfranwyr, gyda dogn iach iawn o bice ar y maen gan Ferched y Wawr Cangen Caerdydd!

Colled drom i Gaerdydd ac i Gymru fu marwolaeth Geraint Jarman ar ddechrau Mawrth. Rydw innau wedi bod yn gwrando dipyn ar ei albyms dros y mis diwethaf – ac yn falch iawn bod ambell un yn y casgliad recordiau gennym acw. Yn y rhifyn hwn, mae Colofn G. R. yn cydnabod maint ei gyfraniad i gerddoriaeth Gymraeg, a diolch hefyd i Gareth Bonello am ei deyrnged arbennig i'r cawr cerddorol.

Mae'n addas iawn, a minnau'n ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, mai yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd y gwelwch chi'r cyfraniad cyntaf i golofn newydd i'r papur: Colofn Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Bydd myfyriwr gwahanol yn ysgrifennu bob mis (ag eithrio yn ystod cyfnod y gwyliau), a'r bwriad yw y bydd y golofn yn gyfle i'r myfyrwyr rannu'r pethau sy'n eu diddori nhw, yn ogystal ag ysgrifennu am rai o'r profiadau a'r cyfleoedd maen nhw'n eu cael yn ystod eu cyrsiau. Mae'r erthygl gyntaf, gan Gwenno Davies sy'n astudio'r Gymraeg, yn craffu ar rai o'r cynlluniau gerbron i arbed arian yn y sefydliad, a'r effaith posibl ar fyfyrwyr a staff. Diolch iddi am ei gwaith a hir oes i'r golofn newydd!

**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr.**

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Gydag Ebrill pwy na chwardd?*

Dyma ni ym mis Ebrill rŵan a'r bardd Eifion Wyn yn sôn yn ei delyneg fel hyn – "Cân mwyalchen yn yr ardd / Rhwng y blagur ar y perthi / Gydag Ebrill pwy na chwardd? / Byr yw'r gawod - hwy yw'r glesni". O! na fyddai'r byd i gyd yn llawn glesni yn hytrach na'r cymylau duon sy uwchben Gaza ac Wcráin a mannau eraill o'r byd cythryblus hwn. Ond rhaid dal ati i obeithio y daw haul ar fryn eto i bawb.

Trist oedd clywed am farwolaeth y cerddor, cyfansoddwr a'r bardd Geraint Jarman yn 74 oed y mis diwethaf. Gedy bwlch mawr o'i ôl yn y byd canu pop Cymraeg ac yntau dros y blynyddoedd wedi swyno cymaint o bobl hefo'i ganeuon canadwy – clasuron megis 'Tacsi i'r Tywyllwch', 'Siglo ar y Siglen', 'Lawr yn y ddinas'. Cyflwynodd reggae Cymraeg hefyd, ac yn sicr bydd llawer o'i ganeuon ar gof y genedl am flynyddoedd i ddod. Fe'i ganwyd yn y gogledd cyn i'r teulu symud i fyw yng Nghaerdydd pan ôdd o'n ifanc a bu'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Bryntâf cyn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays yn y ddinas – ysgol a gynhyrchodd gymaint o bobl ddaeth yn adnabyddus yng Nghymru. Sôn ydw i am bobl megis Bobi Jones, Tedi Millward, Alwyn Prosser, Emrys Roberts, Gilbert Ruddock, Billy Raybould, Martin Huws, Meurig Rees, Alun Davies, Alun Guy a Geraint wrth gwrs! Cydymdeimlir â'i deulu yn eu colled am yr anwylaf o ddynion a roddodd gymaint o bleser i bobl drwy ei ganu.

Cyfnod y Grawys ydy hi rŵan, a Christnogion dros y byd yn paratoi i ddathlu'r Pasg. Yn drist erbyn hyn mae crefydd ar drai a llawer o gapeli ledled Cymru yn cau. Does dim capel Cymraeg ar ôl yn nhre Pontypridd bellach nag ym Merthyr Tudful a gwan ydy ambell achos Cymraeg yn y Rhondda. Ond ar y cyfan mae'r achosion Cymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro yn dal eu tir ar hyn o bryd. Tu allan i Gymru mae nifer o achosion Cymraeg yn gwanhau mewn llefydd fel Lerpwl, Manceinion, Birmingham, Coventry a Llundain a thrist i mi yn bersonol oedd clywed am gau Capel Cymraeg Altringham ar gyrion Manceinion dros y Nadolig gan i mi fynychu'r capel nôl ym mhumdegau'r ganrif diwethaf tra ôn i yn y fyddin mewn gwersyll rhwng Warrington ac Altringham.

Mis diwethaf gwelwyd aelodau o Gymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu a phrotestio ar risiau ein Senedd ym Mae Caerdydd dros 'Addysg Gymraeg i Bawb', tra y mis hwn, ar Sadwrn 26 o Ebrill bydd Mudiad 'Yes Cymru' yn cynnal gorymdaith yn nhre'r Barri. Dyma dre enedigol cyn Lywydd Plaid Cymru Gwynfor Evans a disgwylir miloedd i ddod ynghyd fel yn y gorymdeithiau eraill a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, Merthyr Tudful, Wrecsam, Bangor, Abertawe, Caerfyrddin a Chaerdydd. Bydd etholiad yng Nghymru yn 2026 a felly bydd yr orymdaith yn Y Barri yn sbarduno pobl gobeithio wrth baratoi am yr etholiad pwysig hwn yn hanes ein gwlad.

Er ein bod yn genedl fach o ryw dair miliwn, mae Cymry dros y blynyddoedd wedi serennu ym myd sawl camp, chwaraeon ac athletau, a'r diweddaraf i serennu ydy'r Gymraes Lauren Price o Ystrad Mynach a fu'n paffio o flaen torf o bum mil yn Neuadd Albert yn Llundain y mis diwethaf yn erbyn Natasha Jonas o Lerpwl. Ers iddi droi yn focsiwr proffesiynol dydy hi ddim wedi colli yr un ornest, a pharhaodd ei llwyddiant yn Llundain i ddod yn bencampwraig Welter y byd. Wrth iddi gamu i'r cylch clywyd 'Yma o Hyd' yn atseinio dros y lle ac eto wedyn ar ddiwedd y noson! Dyma roi Cymru ar fap y byd eto a phob dymuniad da i Lauren yn y dyfodol.

Can diolch i bawb am eich cyfarchion pen-blwydd a Phasg Hapus i chi i gyd.

---

Clwb Canna

Cafwyd clincar o noson yn gig Clwb Canna fis Mawrth. Thema'r noson oedd 'Naws Cân i Gymru', a'r artistiaid oedd y cyn-gystadleuwyr Lo-Fi Jones ac enillydd 2024, Sara Davies.

Cafwyd gwledd o hen ffefrynnau wedi'u perfformio'n wych gan yr artistiaid, gan gynnwys "Y Cwm" a "Nwy yn y Nen", ymysg eraill, yn ogystal â chaneuon newydd gan yr artistiaid. Braf oedd gweld Lo-Fi Jones a Sara Davies yn dod at ei gilydd i berfformio rhai o'r caneuon hefyd. Roedd yn braf gweld eu bod wedi cydweithio, a Sara'n gallu manteisio ar gefnogaeth cerddorion mor amryddawn i ychwanegu at sain ei chyfansoddiadau.

Cynhelir gig nesaf Clwb Canna nos Wener 9 Mai, gyda Meinir Gwilym a'r Band, a Cadog – enillydd Brwydr y Bandiau Gwerin yn Eisteddfod Genedlaethol 2024. Prynwch eich tocynnau o Caban, Pontcanna neu drwy TicketSource: https://www.ticketsource.co.uk/clwbcanna



*Llun: Irfon Bennett*

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd



Ar ddechrau Mis Mawrth, cafwyd bore Cymdeithasol a braf oedd cael croesawu dau newydd i'n plith. Mae croeso i aelodau newydd bob amser. Yna cafwyd sgwrs gan yr hanesydd Dr David Jenkins, un sydd wedi arbenigo mewn hanes forwrol o ganol y 18fed ganrif tan y presennol.

Magwyd Dr Jenkins yn Gregynog, gan rieni oedd yn athrawon. Roedd ei fam o deulu o ffermwyr o Lanfyllin a theulu ei dad yn forwyr o Aberporth. Penodwyd ei dad yn brifathro ysgol Gregynog pan oedd Dr Jenkins yn 6 wythnos oed. Cofia Miss Margaret Davies Gregynog yn mynd i'r ysgol adeg y parti Nadolig, ac arferai ef a'i ffrindiau chwarae yng ngerddi'r plas. Graddiodd Dr Jenkins o Brifysgol Aberystwyth mewn Hanes ac yna gwnaeth Ddoethuriaeth yn Abertawe. Bu'n Gynorthwyydd Ymchwil gyda Geraint Jenkins yn yr Amgueddfa Diwydiant a Môr yng Nghaerdydd. Caewyd yr Amgueddfa yn 1998, a nawr does fawr ddim yng Nghaerdydd i gofio am hanes forwrol y ddinas.

Mae Dr Jenkins wedi cyhoeddi llawer, gan gynnwys ar hanes Syr William Reardon Smith a hanes perchnogion llongau yng Nghaerdydd. Ymddeolodd 7 mlynedd yn ôl ac mae'n bwriadu ysgrifennu llyfrau am hanes llongau.

*Mair Morgan*



***Gwenda Morgan yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.***

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Cafwyd noson werth chweil ar Fawrth 13eg, yn y New House, yng nghwmni Ms Gwawr Owen. Nododd fod y lythyren C yn abwyd i'n rhwydo i'w sgwrs: sef Cardi, Cerddor, Cyfarwyddwr, Cyflwynydd, Cymraes. Dyna chi rychwant o yrfaoedd y byddai un yn ddigon i nifer ohonom!

Cafwyd cipolwg o'i bywyd hyd yn hyn! Y ferch gyntaf o Gymru i fynychu Ysgol Yehudi Menuhin pan ond yn 15 oed; yn rhan o dîm cynhyrchu Radio 3; gyrfa lwyddiannus iawn yn Llundain; symud i Gaerdydd, cynhyrchu, cyfarwyddo a chyflwyno rhaglenni radio yn bennaf - a sefydlu Côr Caerdydd. Mae llwyddiannau'r Côr yn adnabyddus i holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* dwi'n siŵr ond pinaclau'r llwyddiannau ydy ennill yn y Genedlaethol dros 10 o weithiau, ac ennill Côr yr Ŵyl sawl gwaith yn Llangollen. Drwy'r cyflwyniad roedd yn amlwg bod ei ymlyniad i'w chynefin a'i magwraeth yn bwysig ofnadwy iddi ac hefyd y rhuddin sydd ganddi i gyflawni mewn cymaint o feysydd amrywiol.



***Gwawr Owen a Wyn Rees***

Cawn gyfle dros yr wythnosau nesa i fwynhau Gwawr yn cyflwyno (a chyfarwyddo a chynhyrchu) rhaglen *Swyn y Sul*.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar Ebrill 7ed yn New House, fel arfer, yng nghwmni'r newyddiadurwr Eifion Glyn. Os oes gennych awydd dod, mae croeso i chi gysylltu â Paul Morgan, a'r cyfeiriad e-bost ydy cylch.cinio@gmail.com.

***Bethan Whittall***

# Colofn Natur



## *Gwersyll Adar Cymru*

### Gethin Jenkins-Jones

Wrth edrych yn ôl ar fy nghyfnod ym mhrifysgol Caerwysg, roeddwn yn enwedig o hoff o ehangu fy ochr greadigol drwy addysgu ieuenctid am natur, a byddai grŵp ohonom ni yn aml yn mynd i ysgolion i redeg amryw o weithgareddau efo thema amgylcheddol. Ers hynny, rwyf wedi bod yn lwcus i gael swyddi efo elfen o ymgysylltu efo pobl ifanc, a heddiw dwi am ffocysu ar fy mhrofiad llynedd yn helpu rhedeg Gwersyll Adar Cymru y BTO. Pam nawr? Wel, mae ceisiadau nawr ar agor ar gyfer gwersyll 2025, ac rwy'n teimlo y byddai'n neis rhannu ychydig am y gwersyll efo chi, rhag ofn bod gennych chi blant neu wyrion a fyddai â diddordeb.



Rydym wedi rhedeg Gwersyll Adar Cymru yn hostel ieuenctid Stackpole (Sir Benfro) dros y bum mlynedd diwethaf. Penwythnos hir yw'r gwersyll, yn cychwyn ar fore dydd Gwener ac yn gorffen ar brynhawn dydd Sul, ac eleni bydd yn rhedeg ar ddiwrnodau hiraf y flwyddyn, rhwng yr 20fed a'r 22ain o Fehefin.

Wedi i bawb setlo yn ystod prynhawn dydd Gwener, mae'r diwrnod cyntaf wir yn cychwyn efo trip cyflym i weld un o boblogaethau mwyaf Cymru yr Ystlum Bedol Fwyaf. Trip llynedd oedd y tro cyntaf i mi weld yr ystlumod prin hyn ym Mhrydain, ac roedd yn anhygoel gweld bron i fil ohonynt yn gadael y glwyd wrth iddi nosi. Roedden ni hefyd yn lwcus i weld cyflwynydd natur (ac enillydd Strictly) Hamza Yassin, oedd yno'r noson honno yn ffilmio ar gyfer dogfen BBC.

Wedi noson o gwsg (neu siarad trwy'r nos i rai, dwi'n siŵr) mae dydd Sadwrn yn dechrau efo agor y trap gwyfyn (rydym yn cymryd i bob gwersyll) i weld pa rywogaethau a gasglwyd yn ystod y nos. Er ei bod hi'n noson braidd yn ddiflas llynedd, roedd sawl math i'w gweld wrth agor y bocs, yn cynnwys rhai efo enwau Saesneg hyfryd fel Rosy Footman a Brussels Lace. Dwi'n credu inni weld tua ugain math o wyfyn y bore hwnnw, ond dwi'n siŵr bod sawl dwsin mwy yn yr ardal.

Mae'r dydd yn parhau efo cyflwyniadau am adar ac ecoleg, cyn i ni adael i fynd am wâc ar hyd yr arfordir. Roedd hyn yn brofiad hyfryd i ni llynedd, gyda'r haul yn tywynnu, ac adar da a phrin i'w gweld fel y Frân Goesgoch, Gwylan Fôr y Canoldir a Corhedydd y Graig. Sylwais hefyd ar amryw o flodau yn y twyni, a dwi'n bwriadu gwneud bach o waith cartref i ddysgu amdanynt cyn y trip nesaf. Mae'r diwrnod yn cloi efo coelcerth ar y safle - efo digonedd o losin i bawb.

Dydd Sul yw uchafbwynt y gwersyll i'r mwyafrif, dwi'n siŵr. Wedi bore yn mynychu sesiwn modrwyo adar, rydym i gyd yn mynd am drip sbesial ar gwch rownd ynys Sgomer. Cyn llynedd nid oeddwn i wedi mynd yn agos at Sgomer ers tua 2007, felly roedd yn grêt cael fy atgoffa am gyfoeth naturiol yr ynys. I bob cyfeiriad, roedd modd gweld miloedd o adar y môr. Y Pâl yw aderyn mwyaf enwog y lle, ond roedd yn neis hefyd gweld adar fel Gwylog, Llurs, Mulfran Werdd a Gwylan Goesddu. Mae adar y môr wir yn anhygoel, yn enwedig wrth gofio eu bod nhw'n goroesi amodau stormus ein moroedd pob gaeaf. Cawsom hyd yn oed gwmni gwylan wnaeth ddim petruso i lanio ar ben un o'r staff!

Wedi dychwelyd i'r hostel a dangos lluniau gorau'r penwythnos ar gyfres fach o sleidiau pwynt-pwer i'r rhieni, mae'r gwersyll ar ben am flwyddyn arall.

Os oes gennych chi rywun ifanc yn eich teulu a fyddai â diddordeb, gofynnwch iddyn nhw i fynd i dudalen ganlynol ein gwefan i anfon cais. Gyda'r haf ar y gorwel, rydw i a'r staff eraill yn edrych ymlaen at wersyll hwyl arall yn 2025.
https://www.bto.org/community/events/youth-events/bto-bird-camp



# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2025



*Dyma'r darn a enillodd Y Fedal Ryddiaith i Ann Davies yn Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd ddechrau Chwefror.*

*Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei llwyddiant.*

## Doethineb Solomon

Yn gynnar un bore, a hithau'n ddiwrnod gwaith digon arferol i bob ymddangosiad, teithia nifer o weithwyr o'u gwahanol gartrefi tuag at yr Hen Ffatri lle gweithiant. Oherwydd toriadau, does neb bellach yn gweithio yno yn ystod oriau'r nos. Wel ... oddieithr efallai am ambell bry copyn a all fod yn taenu ei rwyd wrth lunio'i we mewn cornel guddiedig. Wedi'r cwbl, rhaid i bopeth byw, yn hwyr neu'n hwyrach, ystyried o ble y daw ei bryd bwyd nesaf.

Felly, dyma'r gweithlu wedi ymgynnull o flaen y Rheolwr. Pawb wedi mewnbynnu i'r peiriant ei docyn-amser-cyrraedd. Pawb wedi rhoi eu bagiau cefn, eu hallweddi personol, eu helmedau beic a'u pecynnau bwyd yn y llefydd priodol. Nifer ohonynt wedi pwyso ymlaen wrth olchi'u dwylo i graffu'n ansicr ar eu hadlewyrchiad yn y drych uwchben y sinc, ac wedi cymryd y cyfle i gywiro ambell i frycheuyn a thwtio ambell i gudyn gwallt anystywallt. Yna pob un, yn ei dro, wedi cymryd cipolwg ar y cloc a phenderfynu ei heglu hi am swyddfa Mr Whinney i glywed y manylion am ba beth bynnag sydd ganddo yn dasg ar eu cyfer heddiw.

Eistedda Mr Whinney, y Rheolwr, y tu ôl i'w ddesg, yn rhythu'n ddifynegiant ar sgrin ei liniadur. Ai rhythu a wna ar e-byst, ynteu efallai ar fantolen ariannol annigonol Cwmni sy'n crebachu'n ddyddiol? Pa un bynnag, gallwn weld fod y sgrin yn gryn dipyn mwy o fagned iddo nag yw wynebau ei staff. Dyry un aelod o'r gweithlu, sef Neifion ('Neifs' i'w gydnabod), besychiad bychan rhagarweiniol. Rhaid egluro bod Neifion yn credu bod y swyddogaeth flaengar a gymrodd arno'i hun, i fod yn siaradwr ar ran ei gydweithwyr, yn syniad penigamp. Oherwydd mae Neifs â'i fryd ar ddringo'r rhengoedd o fewn y Cwmni. Felly, wedi'r pesychiad strategol, dyry broc geiriol i'r Rheolwr trwy ddweud bod pawb yn bresennol, a gofynna tybed a oes modd cael gwybod beth yw tasgau'r dydd. Cymra'n ganiataol fod archeb newydd sydd ag angen sylw wedi dod i'r fei.

Ymateb gor-ddramatig a geir gan y Rheolwr. Plycia Mr Whinney anadl fas i mewn i barthau uchaf ei ysgyfaint. Cyfyd ei lygaid a'u hagor led y pen i syllu ar y silffoedd solet sydd y tu cefn i'r rhesiad gweithwyr. Gogwydda ei ben i un ochr fel anifail-gwddw-hir yn ymestyn at ddeilen, a chyda goslef cwbl annaturiol, fe ddywed,

'Wel, Neifion, a bore da bawb arall wrth gwrs…mi welwch focs cardbord mawr fan acw ar y silff, ac ynddo fo mae rhywle rhwng tua pum cant, efallai cyn gymaint â phum *mil,* o bethau crwn a thyllog sydd â handlen ar bob un.'

'Ooow! Diddorol!' medd Debs, gan nodio'n frwdfrydig.

Ac fel y gwna tylluanod wrth droi'n reddfol i gyfeiriad y smic lleiaf a glywant, try'r staff eu pennau (heb droi eu cyrff) i gyfeiriad y bocs. Aiff Mr Whinney rhagddo â'i chwedl,

'Y dasg heddiw,' cyhoedda mewn llais sydd cyn fflatied â chrempog sant, 'ydi llenwi pob un ohonyn' nhw yn ofalus iawn efo dŵr. Yna ar ôl eu defnyddio unwaith, eu taflu i'r bin sbwriel. Mi gei di, Neifion, drefnu *sut* ac *ymhle* ac yn y blaen.*'*

Ac heb ymhelaethu mwy, mae'r Rheolwr yn cau caead y gliniadur, yn tynnu'r plwg o'i soced, yn estyn allwedd oddi ar fachyn, ac yn cydio mewn ffeil lliw gwin. Yn amlwg, nid yw'r ffeil, mwy na'i pherchennog, yn ei hwyliau gorau, oherwydd mae'n bygwth chwydu'i chynnwys ddogfennol driphlith draphlith heibio corneli ei chloriau. A chan fod y rhan fwyaf o'r criw gwaith yn eiddgar am gael eu dwylo ar y pethau dirgel sydd yn y bocs cyn gynted ag y gallant, nid ydynt yn sylwi dim ar eu Rheolwr yn sleifio heibio eu cefnau. Dymuniad Mr Whinney yw cael gadael ei swyddfa am... wel, am o leiaf weddill y dydd. Yn sicr, nid yw am aros i drefnu unrhyw beth ar gyfer yfory. A chyn iddo anweddu drwy'r drws, sodra am ei ben gap-pig sydd o'r un lliw â'r ffeil a garia.

Cred Neifion mai symud i ystafell ehangach fyddai orau. Mae ystafell ym mhen pella'r warws sydd â thap dŵr a sinc ynddi.

'Reit bawb!' gwaedda'r pibydd brith, 'Dilynwch fi!'

Stryffaglia i gario'r bocs allan o swyddfa'r Rheolwr. Ar y cychwyn cred fod gosod esiampl a chymryd cyfrifoldeb arweinyddol fel hyn yn gydnaws â'i natur flaengar. Ond yna daw ansicrwydd mawr i'w feddwl yn sgil y llu cwestiynau dyrys nad oes ganddo ateb parod iddynt. A ddylid llunio asesiad risg cyn i bawb ddechrau poitsian o gwmpas y sinc?...Ai dŵr oer ynteu dŵr poeth fyddai orau? ...A oes digon o jygiau sylweddol eu maint ar gael? ...Ymhle y mae'r bwced mop yn cael ei gadw? Sylweddola nad oes Rheolwr wrth ei benelin i'w gynghori. Ymlafnia ei ymennydd fel brithyll ar fachyn, a theimla Neifion y byddai'n well iddo yntau fod wedi cau ei geg a chysgodi o dan dorlan yn hytrach na bod yma. Gyda phob cam a gymer, cred yn gynyddol fod angen rhywbeth rheitiach na chaneri a lamp i fedru cyflawni'r dasg anarferol hon yn llwyddiannus. Ond yn union fel deillion yn arwain y di-weld, cred yr haig o weithwyr sy'n dilyn y dewin dŵr ar hyd y coridor fod Neifs yn gwybod pob dim sydd i'w wybod.

Erbyn hyn, gafaela'r gweithwyr mewn un o'r 'pethau' tyllog, crynion, handlenog. Edrychant braidd yn syn ar yr eitem a throi'r 'peth' wyneb i waered i'w archwilio. Dyry ambell un ei law dros ei geg tra bo eraill yn crychu eu haeliau. Maent mewn cyfyng-gyngor. Yn sicr, y cwestiwn nad yw neb am fentro ei ofyn yw: sut, ac i ba bwrpas, y disgwylir iddynt lenwi'r 'peth' plastig hwn â dŵr, ac yna pam ei daflu i'r bin sbwriel? Gyda sbonc fach benderfynol, cyhoedda Neifion,

'Mi bicia' i'n ôl i'r swyddfa i weld os ydy Mr Whinney yno, neu o leia' i weld os oes papur cyfarwyddiadau ar y silff. Cychwynnwch chi ar y gwaith o chwilio am gynwysyddion, a'u llenwi efo dŵr o'r tap!'

Ac i ffwrdd ag o dan ysgwyd ei gynffon ddychmygol fel pe bai yn bysgodyn gwlyb wedi ei ryddhau o rwyd.

Ond arhoswch, fe sylwn fod un aelod o'r gweithlu yn dewis sefyll ychydig ar wahân i'r gweddill. Dyma Solomon. Edrycha ar ei gydweithwyr yn anghrediniol. Mae'n edrych damaid yn hŷn na'r lleill, ac ers iddo gael swydd yma yn weddol ddiweddar nid yw erioed wedi mynd ati i ddenu'n fwriadol unrhyw fath o ymateb o fewn y gweithle. Ond y tro hwn, cyn gynted ag y mae'r drws yn cau ar sodlau Neifion, cynigia Solomon ei farn mewn llais meddylgar,

'Wel, os ca' i ddeud, welais i erioed yn fy myw yr *un* rhidyll na gogr a fyddai'n gallu *dal dŵr*. Welsoch chi?'

Wynebau mud. Pennau wedi eu gostwng. Llygaid yn edrych yn llechwraidd y naill ar y llall. Dyna a wêl Solomon. Ond dyma'r weithwraig, Debs, yn tynnu ei gwynt i'w hwyliau a phenderfynu dweud ei dweud. Mynega fod ganddi hi *bob* ffydd yn y Rheolwr, ei bod hi yma i wneud un peth (ac un peth yn unig) sef cael cyflog, ac os oedd Mr Whinney yn gofyn i'w weithwyr wneud rhywbeth, yna roedd hi yma i ufuddhau. A chyda'r holl doriadau diweddar a'r wasgfa ariannol bresennol, doedd cyfleoedd i ennill pres ddim yn beth hawdd i'w gael. Ymhelaetha Debs,

'So enirôds Solomon, fel hyn eniwê dw *i* yn ei gweld o: fysa Wine-ey ...sori, slup-o-ddy-tyng...fysa *Mr Whinney*, bendith ar 'i cotn socs fo, byth wedi gofyn i ni *gneud* y peth tasa'r *actsiwal peth* ddim yn '*doable*', na fysa?'

Does neb wedyn yn dweud na bw na be.

O ganol y distawrwydd llethol, mae Solomon yn cychwyn symud tua'r drws. Rhaid iddo, fodd bynnag, ochrgamu yn bur chwim i wneud lle i Neifion. Mae hwnnw'n rhuthro i mewn yn chwys laddar, ac yn amlwg ar bigau drain i ddweud ei stori.

'Na, welais i ddim papur cyfarwyddiadau yn y swyddfa, a dydi Mr Whinney, lle bynnag y mae o, ddim yn ateb ei ffôn symudol. Y tebygrwydd felly, synnwn i ddim, ydi ei fod o mewn rhyw bwyllgor brys neu'i gilydd yn rhywle! *Duw'n unig ŵyr* ble mae o hanner ei amser y dyddiau yma! Felly...'

Mae'n dal ei anadl, yn gosod ei ddau ddwrn o bobtu'i wasg, ac yn ochneidio gydag un chwythiad anferthol a all'sai fod wedi diffodd holl ganhwyllau cyrff y greadigaeth.

'Reit... os oes yna unrhyw syniad *da* wedi dod i feddwl unrhyw un ohonoch chi tra roeddwn i allan o'r stafell, dewch â fo!'

Edrycha o'i gwmpas a gweld Solomon yn estyn ei law tuag at glicied y drws.

'Ydach chi ar gychwyn i rywle, Solomon...?'

'Wel, ydw Neifion, fel ma'n digwydd bod. Rydw *i* newydd gael syniad *da*. Mae gen i wialen bysgota a rhwyd dyllog adra 'cw sy'n gallu dal pethau o werth. Maen nhw'n addo pnawn golew heddiw n'tydyn ar ôl y glaw sobor 'na neithiwr? Felly, rydw i am bicio adra i nôl fy nhacla 'sgota, ac wedyn, 'dwi am fynd am sgiawt i weld be' fedra'i ddal.'

'Be? Howld on! Be' am dy waith di yn fan'ma?' gofynna Neifion yn bigog, gydag arswyd yn llenwi'i lygaid wrth geisio rhesymu yn wyneb y fath haerllugrwydd.

'Fydd yna ddim pres i neb nad ydi o'n tynnu'i bwysau i 'neud y job 'ma heddiw i Mr Whinney, ti'n dalld?'

'Dalld yn iawn, Neifion. A dwi'n dalld wrth reswm y ca' i'r *sack* o'r joban yma os cerdda' i o'ma heddiw. Ond fydd hynny'n ddim gwaeth na chael fy ngwneud yn ddi-waith o'm swydd flaenorol.'

Try Solomon at y gweithwyr eraill, a dweud,

'Mi fedra' i weld safbwynt Debs yn iawn, a does wiw i neb ohonoch chi gerdded o'ma ar ganol shifft. Dim cyflog ...dim ffish-an-tsips? Ond gwrand'wch, mae'r pys ffresh a'r tatws newydd sy' gen i yn yr ardd 'cw yn *gweiddi* am sgodyn!'

A chyda hyn o lith, llithra Solomon allan drwy'r drws. Ond fel pe buasai wedi ailfeddwl, mae'n camu yn ei ôl i'r ystafell ac yn gofyn yn y modd mwyaf cytbwys a rhesymol,

'Fysach chi'n licio i mi roi'r teciall ar y tân ar fy ffordd allan er mwyn i chi i gyd gael panad bach? Mae 'na gryn dipyn o amser i'w ladd eto 'n 'does hyd nes y cewch chi fynd o'ma? ...Nagoes? Neb? O! wel, pawb at y peth y bo, decini!

Cyn pen ychydig oriau, ar y prynhawn tyngedfennol hwn, mae Solomon fodlon ei fyd yn teimlo rhywbeth yn chwipio ac yn gwingo ar ben arall y wialen bysgota. O'r fath foddhad o ddeall fod blasusfwyd o fewn hyd braich! Mae'r pysgotwr deallus yn cau allan holl anhapusrwydd y bydysawd wrth droi ei holl sylw at lywio'r pryd bwyd nesaf hwn yn ofalus i'r lan. Ni wêl Solomon yr un arlliw o'r petheuach llipa a arnofia'n dawel heibio iddo i lawr yr afon. Ni wêl mo'r eitemau lliw gwin sydd ar eu ffordd ddi-droi'n-ôl i'r môr mawr agored. Ni wêl mo'r dogfennau ar chwâl yn y llifeiriant fel llynges o gychod papur wedi bwrw'r graig.

Wrth hel ei bethau ynghyd, dechreua Solomon biffian chwerthin wrth iddo gofio am wiriondeb affwysol oedolion, yn eu hoed a'u hamser, yn ystyried defnyddio rhidyll i ddal dŵr! Gŵyr Solomon ei fod wedi gweld gormod o amser a bywydau yn cael eu gwastraffu. Gŵyr hefyd sut y gall un digwyddiad annisgwyl newid cwrs bywyd ar amrantiad. Mae ef ei hun yn hen gyfarwydd â cholledion.

Daw sgrech undonog seiren ambiwlans i dorri ar draws ei feddyliau, a gwêl ddau gar heddlu yn gwibio dros y bont. Ond er craffu i'r pellter, nid yw'n canfod eglurhad. Penderfyna nad oes gan y digwyddiad – beth bynnag y bo – ddim oll i'w wneud ag o.

'Ryw Ben Gogor arall wedi gwneud rhywbeth gwirion yn rhywle ma'n siwr', meddylia.

Cyfyd ei fag pysgota a chychwyn cerdded dow-dow am adref. Ychydig a ddychmyga ar y pryd nad y fo fydd yr unig un a fydd yn absennol o'r Hen Ffatri yfory.

## Geraint Jarman

**1950 - 2025**

Anodd iawn oedd derbyn y newyddion trwm ein bod wedi colli Geraint Jarman ychydig wythnosau yn ôl. Mae'r rhestr hir o'i gampau yn annigonol wrth geisio cyfleu ei ddylanwad anfesuradwy ar ddiwylliant Cymru. Ac am restr! Bardd, cerddor, actor, cynhyrchydd, mentor, tad y sîn roc Gymraeg, llais SuperTed ac wrth gwrs, gŵr i Nia a thad i Lisa, Hanna a Mared.

Cafodd ei albwm gyntaf *Gobaith Mawr y Ganrif* (1976) effaith chwyldroadol, ac anodd ydy meddwl am rediad gwell na'r gyfres a ddaeth wedyn: *Tacsi i'r Tywyllwch* (1977), *Hen Wlad fy Nhadau* (1978) a *Gwesty Cymru* (1979). Nododd Gruff Rhys mai Jarman wnaeth arwain y ffordd i fandiau Cymraeg yr 80au a'r 90au drwy symud oddi wrth arddulliau gwerin at sŵn cyfoes roc a reggae byd-eang. Wrth greu gyda cherddorion o gymunedau amlddiwylliannol Caerdydd, daeth Jarman â'r Gymraeg i'r ddinas, a chynnig wyneb dinesig i'r Gymraeg.



Gobaith Mawr y Canu Pop Cymraeg

*Gobaith Mawr y Ganrif* yw teitl y record — a heb fynd i eithafion gor-ganmolaethus, mae'r record hirfaith newydd hon gan Geraint Jarman yn un o'r pethau mwyaf gobeithiol i mi ei glywed ers tro byd ym maes y canu pop Cymraeg.

'PERFECTOR' – nid yn unig yr enw a roddwn i'n staff cymwys, parod eu cymorth sy'n anelu at berffeithrwydd bob amser.

'PERFECTOR' yw enw technegol ein gwasg argraffu offset ddiweddaraf hefyd, peiriant sy'n argraffu'r ddwy ochr i'r ddalen ar yr un pryd.

Beth bynnag yw eich gofynion, penawdau llythyr personol neu 50,000 o gylchgronau, fe rydd ein gwasg modern, cyflym wasanaeth heb ei ail i chi am bris rhesymol.

Am amcangyfrif, yn rhad ac am ddim, cysyllter â Fred Howarth, CYHOEDDWYR CLEGLEN CYFYNGEDIG, 134 Heol Parc Ninian, Caerdydd. Teliffon: 28917.

*O'r Dinesydd Gorffennaf 1976*

Er ei holl lwyddiant, nid oedd yn un i fodloni arno. Roedd ganddo angerdd at yr iaith a thân diysgog am greu. Bu'n fentor i lawer o artistiaid ifanc, a finnau'n un ohonynt. Pan gwrddais i ag ef am y tro cyntaf yn 2009, roedd ganddo lond llaw o lyrics ar bapur a'i ben yn fwrlwm o alawon newydd. Dros y ddegawd nesaf, fe recordion ni dair albwm gyda'r cynhyrchydd Frank Naughton yn Grangetown. Roedd ystod eang ei grefft yn syfrdanol, a'i gwmni'n addysg braf wrth iddo esbonio cefndir ei eiriau unigryw. Cyfansoddodd ganeuon sy'n teithio'n ddidrafferth o'r hunangofiannol i'r hanesyddol, o'r ffraeth i wleidyddiaeth, o'i blentyndod yng Nglanrafon i Aleksandr Solzhenitsyn yn y Gulag, a Rastas y Bae i'r bydysawd.

Rydym wedi colli cawr diwylliannol, ond bydd ei ddylanwad yn parhau i lywio ein cwrs am oes. Cwsg mewn hedd Ger, diolch am y tiwns.

***Gareth Bonello***

Yn y cof ei riff cyfyd – hwn y llais
Fu'n llusern i'n blinfyd –
Jarman yn gytgan i gyd
A'i alaw fyn ddychwelyd.

*Alun Tobias*

# Merched Plastaf

Llongyfarchiadau i aelodau o Ferched Plastaf ar eu llwyddiannau yn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Caerdydd a'r Fro, fel unigolion a gyda'u hysgolion, a dymuniadau gorau iddyn nhw i gyd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dur a Môr ym mis Mai. Pob dymuniad da hefyd i'r Grŵp Cerdd Dant Blwyddyn 10 a dan 19 oed, a ddaeth i'r brig yn yr Eisteddfod Rhanbarth.

### CD

Fel y soniwyd yn rhifyn Mawrth o'r *Dinesydd*, mae'r côr wedi bod yn brysur iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, ac un o'r rhesymau oedd yr amser gafodd ei dreulio'n recordio albwm cyntaf y côr. Mae wedi bod yn her, yn hwyl ac yn hollol hyfryd cael cyfle i roi lleisiau hardd y merched ar gof a chadw am byth. Caiff yr albwm ei lansio'n swyddogol ddydd Sadwrn 26 Ebrill gyda chyngerdd arbennig yn Eglwys St Augustine, Penarth am 6.00. Nid oes tocynnau, ond

***Grŵp Cerdd Dant Merched Plastaf yn cystadlu yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd.***



## Côr Caerdydd yn Dathlu Gŵyl Ddewi 2025

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, fe dderbyniodd Côr Caerdydd wahoddiad gan yr Association of Chartered Certified Accountants i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi 2025 yn eu brecwast blynyddol yng ngwesty'r Hilton, Caerdydd. Bu rhaid i aelodau'r Côr godi'n gynnar iawn er mwyn cychwyn canu am hanner awr wedi saith y bore, ond cafwyd ymateb gwresog i amrywiaeth o alawon Cymreig, gan gynnwys medli o ganeuon Ryan Davies, 'Dros Gymru'n Gwlad', 'Ar Hyd y Nos' a 'Gwŷr Harlech'. Y siaradwraig wadd oedd Rhian Wilkinson, Hyfforddwraig Tîm Merched Cenedlaethol Cymru.

Yna, braint ac anrhydedd i'r Côr oedd cael canu mewn cyngerdd i godi arian i Gymorth Cristnogol yn yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf. Dyma oedd achlysur cyntaf yr elusen eleni i ddathlu eu pen-blwydd yn 80 oed. Cawsom y pleser o rannu'r llwyfan gyda Band Tongwynlais, dan arweiniad Owen Farr. Fe rannodd rhai o ddisgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf ddetholiad o fyfyrdodau meddylgar ar y testun 'Sut y Gwnaeth Duw Gymru'. Hefyd cafwyd darlleniadau ar y thema o obaith gan Rowan Williams, Angela Graham a Siôn Aled. Arweinydd y noson oedd y darlledwr amryddawn Arfon Haines Davies. Diolch i'r Gwir Barchedig Mary Stellard, Esgob Llandaf a'r Deon Jason Bray o'r Eglwys Gadeiriol am gynnal y digwyddiad arbennig hwn. 'Grym Anorchfygol Gobaith' yw'r slogan ar gyfer dathliadau Cymorth Cristnogol eleni, a nod y gyngerdd oedd codi ymwybyddiaeth am eu gwaith yn ogystal ậ chodi arian. Mae'n wych rhannu bod y gyngerdd wedi codi fymryn mwy na £1,600.

Mae mis Ebrill hefyd yn addo i fod yn brysur i'r Côr, gan gychwyn gyda chyngerdd elusennol yng Nghlwb Golff Llanisien, Llys-Faen, Caerdydd ar nos Wener 4ydd o Ebrill am 19.30. Tocynnau'n £25 i gynnwys lluniaeth ysgafn a chyfraniad elusennol at Ymchwil Canser Cymru. Er mwyn archebu tocynnau cysylltwch â Wyn Mears ar wyn@wynmears.com.

Yna, nos Fercher, Ebrill 9fed fe fydd y Côr yn canu mewn cyngerdd o gerddoriaeth ddefosiynol ar gyfer y Grawys a'r Pasg, yn Eglwys St Luc, Parc Buddug Caerdydd. Mynediad am ddim. Fe fydd detholiad o ddarlleniadau a cherddoriaeth yn cynnwys darnau gan Tavener, Mealor, Stainer, Lotti a Williams, Gittins a Roberts.



## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar Nos Lun 27ain o Ionawr 2025 cawsom ni ddarlith ddiddorol iawn gan yr Athro Ifan Hughes o Brifysgol Durham ar y pwnc 'Titrwm Tatrwm Cyfrifiadura Cwantwm'. Cyn dechrau'r ddarlith cawsom deyrnged i Huw Roberts, ein cyfaill annwyl a chyn drysorydd, a gollon ni cyn y Nadolig. Mae Ifan yn enedigol o Ynyshir yng Nghwm Rhondda, lle roedd ei dad yn weinidog. Fel rhan o'i gyflwyniad i Ffiseg Cwantwm roedd Ifan yn dyfynnu o *Ysgrifau* T.H. Parry-Williams am ei syniadau ef ar Ffiseg Cwantwm, cyn sôn yn gyffredinol am ddatblygiad cyfrifiaduron heddiw sef cyfrifiaduron clasurol.

Mae nifer y transistorau sydd mewn prif brosesydd cyfrifiadur yn mesur pŵer cyfrifiadur, ac mae hwn wedi bod yn dyblu bob deunaw mis (mwy neu lai) ers y 1970au: gelwir hyn yn ddeddf Moore. Ond mae terfyn i'r datblygiad hwn wrth i'r pŵer sydd angen ei wasgu i ddarn bach o silicon gynyddu ac wrth i'r transistorau fynd mor fach fel bod pob un ond yn cynnwys ychydig atomau. Felly i barhau â'r cynnydd rhaid cael pensaernïaeth wahanol i gyfrifiadura ac un o'r posibiliadau yw defnyddio effeithiau cwantwm.

Yna aeth Ifan â ni ar daith drwy rai o ryfeddodau y byd cwantwm fel y ddeuoliaeth rhwng gronyn a thon, mesuriadau yn effeithio ar arbrofion, cyfuniad cydlynol lle gall gronyn is-atomig fod mewn llefydd gwahanol ar yr un pryd, ac yn olaf, ymglymiant. Yr enghraifft fwyaf enwog o ymglymiant yw cath Schrödinger sydd yn farw ac yn fyw ar un pryd! Nid yw yr effeithiau hyn i'w gweld ar raddfa ein byd ni, ond maent ym mhob man yn y byd cwantwm. Mae'n bosibl symud atomau unigol gyda laser i greu cyfrifiadur cwantwm sy'n gweithio mewn ffordd wahanol i'r rhai clasurol, ac o bosib yn gallu datrys problemau sy'n anodd neu'n amhosibl ar hyn o bryd. Cawn weld mewn pum mlynedd pan ddaw Ifan yn ôl i sôn am ddatblygiadau pellach yn y maes hwn!

*Rhys Morris*

Cysylltwch â cymdeithas.wyddonol@gmail.com os hoffech wybodaeth am Gymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd.

# Colofn Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



## Colofn Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Dyma golofn newydd i'r *Dinesydd* sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr y Brifysgol ysgrifennu am y pethau sy'n eu diddori nhw ar hyn o bryd. Awdur erthygl mis Ebrill yw Gwenno Davies sy'n astudio'r Gymraeg.

## Toriadau Arfaethedig Prifysgol Caerdydd

Ar ddechrau 2025, cyhoeddodd Prifysgol Caerdydd ei bod yn bwriadu torri 400 o swyddi academaidd, er mwyn "diogelu dyfodol hirdymor" y sefydliad.

Gwnaeth y Brifysgol ryddhau ei chynlluniau i uno rhai adrannau academaidd, a chau adrannau eraill yn llwyr, gan gynnwys yr Ysgol Gerddoriaeth, yr Ysgol Nyrsio, a'r Ysgol Ieithoedd Modern a Chyfieithu.

Er hyn, nododd llefarydd ar ran y Brifysgol mai "cynigion yw'r rhain, does dim penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud." Bydd proses ymgynghori y Brifysgol yn dod i ben ar y 6ed o Fai.

Ers gwneud y cyhoeddiad gwreiddiol, mae'r Brifysgol wedi datgan y bydd yr holl swyddi academaidd yn Ysgol y Gymraeg a'r Ysgol Gyfrifiadureg yn cael eu diogelu.

"Mae hi'n wych gweld bod nifer o staff y Brifysgol bellach yn gwybod bod eu swyddi nhw'n saff – byddai'n warth petai Ysgol y Gymraeg wedi gorfod wynebu toriadau," meddai un o fyfyrwyr y Brifysgol.

Er hyn, mae rhai adrannau yn y Brifysgol yn dal i wynebu ansicrwydd mawr.

"Mae Caerdydd yn ddinas llawn cyffro sy'n denu myfyrwyr o bob cwr o Gymru" ychwanega'r myfyriwr. "Byddai'n drueni mawr gweld rhai yn methu dod yma i astudio am nad yw'r Brifysgol yn cynnig y cwrs iddyn nhw."

Bu Keith Chapin, Uwch Ddarlithydd Cerddoriaeth yn y Brifysgol, yn siarad â ni ynglŷn â'r sefyllfa yn yr Ysgol Gerddoriaeth.

"Ar ôl y datganiad roedd yn sioc enfawr a lot o ddicter, ac mae'r ansicrwydd yn achosi pryder, dicter, gobaith, anobaith, a blinder mewn ffigar-êt diddiwedd i fyfyrwyr a staff," meddai.

Mae Dr Chapin yn teimlo'n hynod o gryf dros barhad cerddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Pwysleisia mai'r cwrs hwn yw'r unig gwrs yn y Brifddinas sy'n galluogi myfyrwyr i ganolbwyntio ar agweddau academaidd y pwnc, yn ogystal â'r agweddau ymarferol. Noda hefyd fod y cwrs yn unigryw am ei fod yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr astudio cerddoriaeth mewn cyd-destun Cymreig.

"Byddai ysgolion Cymru yn wannach petai'r Ysgol Gerdd yn cau," meddai.

Gyda diwedd yr ymgynghoriad ar y gorwel, teimla Dr Chapin yn obeithiol y caiff addysg gerddoriaeth barhau ym Mhrifysgol Caerdydd mewn rhyw ffodd, o bosib fel rhan o ysgol ehangach.

"Mae'r Ysgol Gerdd wedi cynnig gwrthgynnig cryf, ac mae'r Brifysgol wedi clywed oddi wrth gefnogwyr yng Nghymru, Prydain, a ledled y byd."

"Mae cerddoriaeth mor bwysig fel pwnc, ac felly mae'n anodd meddwl y bydd y pwnc yn diflannu yn gyfan gwbl. Ond amser a ddengys!"

*Gwenno Davies*




# Merched y Wawr
# Y Felin

**Beth sydd yn y Stacs?**

Croesawyd Sara Huws i'n plith i rannu mwy am ei gwaith fel curadur sy'n gweithio yn llyfrgell ac archifdy Prifysgol Caerdydd neu yn y 'stacs' fel iddi gyfeirio ato.

Rydych siŵr o fod yn adnabod Sara fel cyn gyflwynydd y rhaglen hanes boblogaidd *Waliau yn Siarad* gydag Aled Hughes, ond a wyddoch ei bod hi hefyd wedi bod yn rhan o sefydlu amgueddfa hanes menywod yn Llundain, wedi bod yn rhan o dîm Sain Ffagan ac yn dal y record yng Nghymru hyd heddiw am godi pwysau 90 kilo ac uwch!

Cafwyd gwibdaith ganddi am rai o gasgliadau unigryw y llyfrgell, pob un â hanes difyr tu ôl iddynt: y casgliadau o rwymiadau cain prin cynnar mewn Lladin yn dangos nad oeddent wedi penderfynu ar drefn darllen llyfr, a rhwymiadau cain gan ferch Williams Morris yn y 1890au oedd wedi cael eu brodio â llaw. Mae'r casgliadau cerddorol yn cynnwys llyfr cerddoriaeth gwerin a argraffwyd ac a werthwyd ar draws Gymru gan Maria Jane Williams o'r oes Fictoria sy'n dangos cariad pobl Cymru at ganu ar yr aelwyd a dysgu offerynnau a chanu cerddoriaeth, yn ogystal ag archif personol Morfudd Llwyd Owen.

Rhannodd Sara hefyd luniau o lyfrau anarferol allan o gerrig ac o bren, llyfr bach 2cm o faint yn llawn rhigymau a darluniau sy'n dangos dawn printio a phwytho yr argraffydd, a'r llyfr mwyaf yn y casgliad gyda meingefn o 60 cm: *Ordinary Cats* gan Shirley Jones o wasg Red Hen a aeth ati i restri enwau y ffermydd, y caeau a phlanhigion a gollwyd yn Epynt.

Casgliad pwysig arall yw y llyfrgell Gambrian sef casgliad preifat gan Enoch Robert Gibbon Salisbury o Gaer a oedd yn casglu bob math o ddeunyddiau am Gymru. Trosglwyddwyd y casgliad i'r Brifysgol pan aeth yn fethdalwr. Cyfeiriodd hefyd at y casgliadau personol gan rannu hanes Janet Reader, gohebydd brenhinol a oedd yn teithio gyda'r frenhines Elisabeth ar ôl coroni 1952 ac a fu yn ysgrifennu llyfrau ar ran sêr Hollywood fel Gracie Fields, Sophia Loren, Charlston Heston a Julie Andrews.

Rhaid cofio hefyd bod y Brifysgol yn archif sefydliadol sy'n dangos hanes dysg a hanes pobl ifanc yng Nghymru fel hanes myfyrwyr, sy'n dangos yr ymgyrchu a'r gerddoriaeth ers y 1970au.

Felly os yw'r uchod wedi codi chwant arnoch i archwilio ac ymchwilio mwy mae modd gwneud apwyntiad i ymweld â'r ystafell ddarllen yn Llyfrgell y Brifysgol rhwng Llun-Gwener, 9.00yb-5.00yp. Ar ran MYW Cangen y Felin, diolch mawr i Sara am noson benigamp, mae nifer ohonom eisoes wedi trafod ymweliad yn fuan.

*Rydym yn cwrdd am 7.30yh ar drydydd mis Iau y mis yn festri Capel y Methodistiaid, Ffordd Kelston yr Eglwys Newydd. Am fwy o wybodaeth e-bostiwch mywyfelin@gmail.com neu cysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857 342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810 363232.*

***Janet James, Sara Huws a Glenys Evans***



# Cynhadledd y Papurau Bro

Daeth cynrychiolwyr ynghyd o bob cwr o Gymru a thu hwnt yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth, ddydd Iau, 20fed Chwefror, ar gyfer Cynhadledd y Papurau Bro 2025, a minnau'n eu plith am y tro cyntaf ar ran *Y Dinesydd*. Cawsom groeso cynnes gan Cathryn Griffith, Swyddog Cydlynu Mentrau Iaith Cymru. Bu'r sesiwn gyntaf, 'Cymraeg 2050 a'r Papurau Bro', yng ngofal Fiona Marston, Rheolwr Polisi a Grantiau Llywodraeth Cymru. Anogodd ni i feddwl am y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r papurau bro wrth iddynt ymateb i strategaeth y Llywodraeth i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dyblu'r ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yw'r targed arall. Thema'r ail sesiwn oedd llwyddiannau'r flwyddyn. Tynnwyd sylw at sawl uchafbwynt. Er enghraifft, roedd *Y Bedol* a *Clebran* wedi sicrhau grantiau, un i greu cryno-ddisg gyda sgyrsiau ac erthyglau i bobl ddall neu wael eu golwg, a'r llall i gynhyrchu canllawiau i'r gohebwyr.

Ar ôl cinio, ailgydiodd pawb yn rhaglen y prynhawn. Cynllunio olyniaeth oedd y pwnc dan sylw. Mynegwyd pryder gan rai am ddyfodol eu papurau bro oherwydd diffyg gwirfoddolwyr newydd i gymryd drosodd pan fydd y gwirfoddolwyr presennol yn heneiddio. Mae'n galonogol bod *Y Dinesydd* wedi denu gwaed newydd yn ddiweddar, pobl â'r sgiliau allweddol i symud y papur ymlaen, ond mae mwy o waith i'w wneud. Cawsom sesiwn sgwrsio am ddyheadau'r dyfodol. Creu mewnrwyd neu gwmwl i'r papurau bro, a darparu hyfforddiant mewn sgiliau a fyddai'n ddefnyddiol wrth gynhyrchu papur bro, oedd rhai o'r syniadau a gynigiwyd. Yn ystod y sesiwn olaf, bu cyfle i siarad ag Anest Roberts, aelod o dîm marchnata y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Maen nhw'n awyddus i gydweithio â'r papurau bro.

Bu'r gynhadledd yn gyfle gwych i ryngweithio â'r cynrychiolwyr eraill ac i wrando ar eu profiadau. Roedd eu hymrwymiad i'r achos yn amlwg. Gwelais sut mae gan bob papur bro ei gymeriad neilltuol, a sylweddoli pa mor wahanol yw dalgylch pob papur bro, boed yn wledig neu'n ddinesig.

*Yvonne Haynes*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Troeon Trwstan Tiwtor (3)*

## Gwilym Dafydd



Ysgrifennais yn ddiweddar am fy mhrofiad o fynd yn sownd mewn lifft. Rhaid cyfaddef nad dyna'r unig dro imi fynd yn sownd yn rhywle wrth fy ngwaith fel tiwtor. Un tro cafodd fy nghar ei gloi i mewn i faes parcio ysgol ac unwaith ces i fy nghloi i mewn yn un o swyddfeydd yr heddlu. Hoffwn bwysleisio nad oeddwn i yn un o'r celloedd!

Roeddwn i'n arfer dysgu dosbarth mewn ystafell uwchben derbynfa'r swyddfa. Swyddogion yr heddlu oedd mwyafrif y dysgwyr ond roedd hefyd ychydig o weithwyr yr awdurdod lleol. Pan ddechreuodd y cwrs, dwedodd y trefnydd ei bod hi'n bosib byddai angen i'r swyddogion adael y dosbarth yn sydyn rhywdro tasai rhywbeth mawr yn digwydd yn yr ardal. Byddai'n iawn i weddill y dysgwyr aros tan ddiwedd y wers. Wrth adael yr ystafell ddosbarth, byddai'r drws yn cloi y tu ôl inni. Ac un tro dyna ddigwyddodd.

Roedd y dosbarth wedi bod yn cwrdd bob wythnos am fisoedd heb unrhyw beth anarferol yn digwydd ond un prynhawn, yng nghanol gwaith gwrando a deall, canodd y ffôn. O fewn eiliadau, a heb esboniad, roedd pob un o'r swyddogion wedi mynd. Dim ond tri ohonon ni oedd ar ôl yn y dosbarth. Ar ôl ychydig o sgwrsio wrth inni geisio dyfalu beth oedd yn digwydd, aethon ni ymlaen gyda'r wers. Pan ddaeth y dosbarth i ben roedd pawb yn ofalus i godi eu holl fagiau a llyfrau gan wybod na fyddai modd dod 'nôl i'r ystafell tasen ni'n anghofio rhywbeth. Ar ôl cip sydyn o gwmpas yr ystafell i wirio bod popeth yn iawn, allan â ni a'r drws yn cau'n glep y tu ôl inni.

Yn syth, roedden ni'n sylwi bod rhywbeth yn wahanol. Yn lle'r sŵn arferol o'r dderbynfa roedd tawelwch pur. Aethon ni lawr y grisiau a gweld bod y dderbynfa'n wag. Neb y tu ôl i'r cownter, neb o flaen y cownter, neb yn ateb y ffôn. Neb. Cerddon ni draw i'r drws blaen. Roedd e dan glo. Cerddon ni draw i'r drws i weddill yr adeilad. Roedd e dan glo. Ein hymateb cyntaf oedd chwerthin! Roedd mainc yn yr ystafell ac eisteddon ni, yn hyderus y byddai swyddogion yn dod 'nôl i'r dderbynfa cyn bo hir. Efallai bod nhw wedi picio allan i gael paned.

Ar ôl hanner awr o ymarfer cwestiynau amser dyfodol fel 'Sut ewch chi adre?', 'Beth gewch chi i swper?', ac 'Edrychwch chi ar y teledu heno?' fe gyrhaeddon ni'r cwestiwn 'Beth wnawn ni nesaf?' Yn gyntaf, gweiddi wnaethon ni, yn Gymraeg ac wedyn yn Saesneg. Dim ymateb. Wedyn curo ar y drws mewnol a gweiddi trwy dwll y clo. Dim ymateb. Neidio lan a lawr o flaen y camera CCTV. Dim ymateb. Beth am ffonio? Ffonion ni rif yr heddlu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn achosion brys. Esboniodd y swyddog a atebodd nad oedden nhw'n cael rhyddhau rhif y swyddfa lle roedden ni ond bydden nhw'n anfon neges ymlaen. Am ychydig roedd gobaith gyda ni a setlon ni 'nôl ar y fainc a chwarae 'Dw i'n gweld â'n llygad fach i…' Aeth hanner awr arall heibio.

Y cwestiwn nesaf oedd 'Dych chi'n nabod rhywun sy'n gweithio i'r heddlu?'

Roedd tawelwch wrth i bawb grafu pen a sgrolio trwy eu ffonau. O'r diwedd, dyma un o'r dysgwyr yn dweud ei fod e wedi meddwl am rywun: gŵr chwaer un o'i ffrindiau. Ffoniodd y ffrind. Ffoniodd y ffrind ei chwaer ac esboniodd hi'r sefyllfa i'w gŵr. Unwaith stopiodd e chwerthin, dwedodd y byddai'n dod draw yn syth i'n rhyddhau ni. A dyna a wnaeth. Cyrhaeddodd yr un amser â swyddog oedd newydd dderbyn neges gan y gwasanaeth ffôn digwyddiadau nad ydynt yn achosion brys.

Roedd pawb yn iawn ac ymddiheuro wnaeth swyddogion y swyddfa gan esbonio bod polisi ganddyn nhw i gau'r dderbynfa pan oedd angen i lawer o swyddogion adael er mwyn delio â digwyddiad mawr yn yr ardal. Mae angen i swyddogion y dderbynfa ymgymryd â thasgau eraill ar adegau fel hynny. Wrth weld y swyddogion yn rhuthro allan o'r dosbarth doedden nhw ddim wedi sylweddoli bod y dysgwyr eraill, a fi, yn dal i fod yno!

Yr wythnos ganlynol roeddwn i'n amau a fyddai'r dysgwyr yn bresennol. Ond chwarae teg, roedd y dosbarth yn llawn a'r dysgwyr oedd wedi bod yn sownd yn y dderbynfa yn awyddus iawn i ddweud eu stori. Cyfle i ymarfer atebion eitha' anarferol i'r cwestiwn 'Beth wnaethoch chi wythnos diwethaf?

*Carole Bradley*

*Diolch yn fawr i Carole am y trydydd tro – atgofion difyr a diddorol iawn. Beth am brofiad eraill ohonoch fel tiwtoriaid neu ddysgwyr – oes gyda chi atgofion o droeon trwstan mewn dosbarth Cymraeg yn y Gweithle neu ddosbarth nos? Beth am ysgrifennu paragraff? Anfowch air ymlaen os dymunwch at eirianagwilym@gmail.com*

# Y DIGWYDDIADUR

## Ebrill

**Sadwrn, 12 Ebrill**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i wrando ar Marc Evans yn rhoi sgwrs am 'droeon yr yrfa', yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Nid oes angen cofrestru ymlaen llaw. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach:
gwybodaeth@cwmpawd.org

**Llun, 14 Ebrill**
Mewn Cymeriad yn cyflwyno 'Roald Dahl – Dychmygwch!' gan Anni Llŷn. Drama ryngweithiol i blant oed 5+ yn Neuadd Llanofer, Treganna (CF5 1FH), am 11.00am. Tocynnau a manylion pellach:
www.mewncymeriad.cymru

**Llun, 14 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Ioan Kidd ar y testun 'Byd y Llyfrau', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes.

**Llun, 14 Ebrill**
Cyngerdd Pasg C.Ô.R yn Eglwys Gatholig Sant Helen, Caerffili (CF83 3FB) am 7.30pm. Bydd yn cynnwys perfformiad o 'Requiem' Fauré a darnau gan Bruckner, Stainer, Stanford, Arnesen a Mascagni. Arweinydd: Osian Rowlands. Cyfeilydd: Jeffrey Howard. Gellir archebu tocynnau drwy ddilyn y ddolen hon:https://www.eventbrite.com/e/cyngerdd-pasg-cor-easter-concert-tickets-1255679995669?aff=oddtdtcreator
Mae modd talu ar y drws, ond a wnewch chi ddod â'r arian parod cywir, os gwelwch yn dda (£12 i oedolion; £6 i rai dan 16 oed). Yr elw at Eisteddfod yr Urdd Casnewydd 2007.

**Iau, 17 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Sgwrs gan Wyn Jones ar y testun 'Gochelwch rhag y sgams (IT)', yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Manylion pellach: mywyfelin@gmail.com. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Sadwrn, 26 Ebrill**
Cyngerdd lansio CD Côr Merched Plastaf yn Eglwys Sant Awstin (*St Augustine*), Penarth, CF64 1BJ, am 6.00pm. Nid oes tocynnau, ond gwerthfawrogir cyfraniadau, a bydd y CD ar werth.

**Llun, 28 Ebrill**
Grŵp Cymdogion a Ffrindiau Cymraeg yn cwrdd yn Hyb yr Eglwys Newydd (CF14 7XA) am 3.00pm. Fe'i trefnir gan Awen: https://www.awenthelibrary.cymru/

**Llun, 28 Ebrill**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan Carys Bill (Prifysgol Imperial, Llundain) ar y testun 'BANG! Adeiladu ein byd trwy wrthdrawiadau', am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â CymdeithasWyddonol@gmail.com

**Llun, 28 Ebrill**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan Dr David Callander (Prifysgol Caerdydd) ar y testun 'Myrddin: Proffwyd neu Ddewin?' Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

## Mai

**Sadwrn, 3 Mai**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.00am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Mawrth, 6 Mai**
Menter Caerdydd. Taith dywys i ddysgu rhagor am y Deml Heddwch ym Mharc Cathays, yn dechrau am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Mercher, 7 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur (ar y cyd â Gŵyl Radur). Noson yng nghwmni Gethin Russell-Jones, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. £5 wrth y drws i rai nad ydynt yn aelodau.

**Gwener, 9 Mai**
Cymdeithas Cymru-Ariannin y De-Ddwyrain. Sgwrs gan Gwyn Jones, Dyffryn Conwy, ar y testun 'Cofnodi enwau Cymraeg Patagonia'. Yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Paned am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 10 Mai**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i wrando ar Nia Brown yn trafod nyddu, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Nid oes angen cofrestru ymlaen llaw. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach:
gwybodaeth@cwmpawd.org

**Llun, 12 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA. Ymgynnull am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £30 yr un. Siaradwraig wadd: Ffion Dafis, o fyd y theatr a'r celfyddydau. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r cyd-Ysgrifennydd, Paul Morgan (07761-696286; cylch.cinio@gmail.com).

**Mawrth, 13 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan yr Esgob Mary Stallard, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mercher–Gwener, 14–16 Mai**
Theatr Cymru yn cyflwyno 'Huw Fyw' gan Tudur Owen yn Theatr Sherman. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/huw-fyw/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Iau, 15 Mai**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Gosod blodau gyda Kevin Davies, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Manylion pellach: mywyfelin@gmail.com. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Iau, 15 Mai**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan Eurgain Haf, enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod Rhondda Cynon Taf, am ei nofel *Y Morfarch Arian*, yng Nghlwb Rygbi Pentyrch am 8.00pm. Fe'i trefnir gan Glwb y Dwrlyn. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, Manylion ar dud. 2**

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Canu'r Ychen (rhan 2)**

Yn ein herthygl ddiwethaf, soniwyd am yr arfer hynafol o aredig ag ychen, arfer a barhaodd mewn rhai mannau ym Mro Morgannwg hyd at tua diwedd y 19eg ganrif – yn hwy nag yn unman arall yng Nghymru. Roedd canu i'r ychen yn rhan draddodiadol o'r gwaith o'u hannog yn eu blaen, a'r un a wnâi hynny oedd y 'cathreinwr' (neu'r 'geilwad'), a oedd yn eu 'cathrain' (neu eu procio) â gwialen hir â phigyn ar ei blaen, yn ogystal â galw arnynt a chanu iddynt.

Amrywiol iawn oedd y caneuon a genid i'r ychen o ran mesur a phwnc, a llawer ohonynt yn rhai ysgafn a doniol. Ond fel y nodwyd y tro diwethaf, y triban oedd y mesur mwyaf poblogaidd o lawer ym Morgannwg wrth ganu i'r ychen, gydag anogaethau megis 'hw-mlân', neu 'dere-dere', neu 'ma-hw' yn cael eu hychwanegu ar ddiwedd y pennill.

Wrth gloi'r erthygl ddiwethaf, dyfynnwyd rhai tribannau a gynhwysodd D. Roy Saer yn ei gasgliad *Caneuon Llafar Gwlad*, cyfrol 1 (1974). Codwyd y tribannau hynny o recordiad a wnaed yn 1953 o ddyn o'r enw Robert Thomas yn eu canu, ac yntau wedi eu dysgu tua 1878, pan oedd yn rhyw 13 oed, wrth iddo gathrain ychen ar fferm yng nghyffiniau Sain Nicolas ym Mro Morgannwg.

Cawn enghraifft arall o boblogrwydd tribannau wrth ganu i'r ychen yn achos fferm Maesylai (hynny yw, 'Maeselái'), yr enw Cymraeg ar 'Ely Farm' (neu'r 'Little Farm' fel y'i gelwid ar un adeg). Roedd caeau'r fferm honno ar ochr orllewinol Afon Elái, i'r de o bentref Trelái a Heol Orllewinol y Bont-faen (yr A48), yn yr ardal lle y mae Heol Dyfrig a rhannau o Barc Trelái erbyn hyn. Dymchwelwyd yr hen ffermdy yn lled ddiweddar, ysywaeth, a chodi rhan o Gwrt Stan Richards ar y safle yn 2015.

Y ffermwr ym Maesylai am lawer o'r 19eg ganrif oedd George Thomas ('Morganed'; 1821–98), ffigwr cyhoeddus amlwg yn ei ddydd. Roedd yn eisteddfodwr brwd ac yn Eglwyswr selog. Ymddiddorai'n fawr yn hanes a thraddodiadau'r ardal, gan ennill y llysenw 'the Oracle of Ely' ar gyfrif ei wybodaeth ddihysbydd. Rhoddodd y gorau i aredig ag ychen tua 1850 a throi at ddefnyddio ceffylau, a hawliodd mai ef oedd yr un olaf i aredig ag ychen yng nghyffiniau Caerdydd. Ond daliai i anwesu'r tribannau y byddai wedi eu canu i'r ychen, ac roedd wrth ei fodd, mae'n debyg, yn eu canu yn y dafarn.

George Thomas yw'r ffynhonnell ar gyfer nifer o'r tribannau a luniodd Siemsyn Twrbil. Soniwyd eisoes am Siemsyn a'i dribannau yn y gyfres hon o erthyglau (yn rhifyn Tachwedd 2023, sydd ar gael yn electronig yma: http://dinesydd.cymru/teithiau/). Fe'i ganed yn 1777 yn ardal Cimdda Llandaf (neu Gimdda Elái) – y tir comin y crëwyd Parc Victoria ar ran eithaf sylweddol ohono yn yr 1890au. Gwehydd oedd Siemsyn Twrbil wrth ei grefft, a bu'n byw mewn sawl man ym Morgannwg. Ond gweithiai am gyfnod ar fferm Maesylai, a lluniwyd rhai o'i dribannau i'w canu i'r ychen yno.

Dyma, yn ôl George Thomas, hanes llunio un o'i dribannau, a hynny'n fyrfyfyr. Un tro roedd Siemsyn wrthi'n aredig ar un o gaeau fferm Maesylai a oedd yn agos at ffynnon ger Pont Elái (ffynnon sydd bellach wedi ei gorchuddio gan Riverside Terrace). Roedd nifer o ferched yn hel clecs wrth y ffynnon. Taflodd un ohonynt dywarchen at Siemsyn, ac meddai ef:

Mae merched glân yn Dwllgod,
Ac yn Llandaf rhai hynod,
Ac yn y Caerau aml rai,
Ond yn Drelai clecïod.

(Sylwer ar y ffurfiau llafar 'yn Dwllgod' – sef Tyllgoed – ac 'yn Drelai'.)

Tribannau amrywiol iawn eu pynciau a genid gan y cathreinwr heb unrhyw gysylltiad â'r gwaith o aredig o anghenraid, ac eithrio'r anogaeth a ychwanegid ar y diwedd. Ond mae rhai enghreifftiau wedi goroesi o dribannau a luniwyd yn benodol ar destun aredig ag ychen, megis y ddau hyn:

Dau ych yw Silc a Sowin,
Un coch a'r llall yn felyn;
Pan yn aredig yn eu chwys,
Hwy dorran' gŵys i'r blewyn.

O! dewch, yr ychen gwirion,
Hir gyrnau, garnau duon,
Yn yfflon chwelwch chwi y tir
Ac ni gawn lafur ddigon.

Ac nid tribannau yn unig, oherwydd ceir rhai caneuon ar fesurau eraill a luniwyd yn benodol ar gyfer eu canu i'r ychen. Dyma rai enghreifftiau ohonynt; a sylwer pa mor sionc ydynt, a pha mor llawn ydynt o ddarluniau hyfryd o fyd natur.

Ho! dere, dere'r Du,
  Mae heddiw'n fore tirion,
Mae'r adar bach yn canu
  Yn bêr o'r gwiail irion:
*Ho, ymlaen; ho, ymlaen; ho!*

Ho! dere dithau'r Glas,
  Mae heddiw des ysblennydd,
A'r hedydd bach yn codi
  Uwchben i'r glas wybrennydd.

Ho! dere'r Du a'r Glas,
  Mae'r dalar dan y meillion,
Cewch egwyl yno i bori,
  Ho-ho! fy hen gyfeillion.

Yn draddodiadol, rhoddid enwau Cymraeg ar wartheg, ond enwau Saesneg ar geffylau. Er enghraifft, yn Nolwar Fach, fferm yr emynyddes Ann Griffiths, enwau fel Brochen a Mwynen oedd ar y da godro, ond Smiler a Dragon ar y ceffylau. Enwau Cymraeg fel Mwynyn, Moelyn a Siencyn a roddid ar ychen, a gwelid rhai ohonynt hefyd yn dwyn enwau beiblaidd fel Marc a Luc, yn atgof o'r hen arfer

ganoloesol o enwi ychen ar ôl apostolion Crist; ond wrth i geffylau gael eu defnyddio fwyfwy yn gymysg ag ychen yn y wedd, gwelid tuedd gynyddol i roi enwau Saesneg crand megis King a Duke ar yr ychen.

Weithiau rhoddid enwau ar yr ychen a adlewyrchai ryw nodwedd gorfforol, megis Trwyngoch neu Hirgorn, ac yn y gân uchod a'r un nesaf, cyfarch yr ychen wrth eu lliwiau a wneir. Du oedd lliw y rhan fwyaf o ychen yn y Gogledd, ond roeddynt yn fwy amrywiol eu lliw yn y De, yn wyn a choch a brown ac yn y blaen, ac roedd nifer yn gymysgliw.

Ychen du a glas sydd yn y gân nesaf hon hefyd, fel yn y gân flaenorol, gan fod 'llwyd' a 'glas' yn gyfystyr yng nghyd-destun anifeiliaid. Ystyr 'talar' yw 'rhimyn o dir ar hyd ymyl cae a adewir heb ei aredig i adael lle i'r aradr droi'; ystyr 'braenar' yw 'tir wedi ei aredig'; ac ystyr 'gwndwn' yw 'tir heb ei droi':

Cwyd Mari, cau dy gŵyn,
Mae heddiw'n fore mwyn,
Mae'r adar bach yn tiwno,
A'r gwcw yn y llwyn.
*Hw-ymlaen; hw-ymlaen; hw!*

Fe aeth y Chwefror chwyth,
A Mawrth aeth ar ei ôl,
Ac Ebrill sydd yn gwasgar
Briallu ar y ddôl.

Ymlaen, fy ychen dri,
Ymlaen ynghynt â ni;
Ymlaen i ben y dalar –
Y braenar yw ein bri.

Ymlaen y Duon ewch,
Ei dithau'r Llwyd ar ras,
Neu'r haf a ddaw, a ninnau
Heb dorri'r gwndwn glas.

Sylwer mai tri ych sydd yn y gân uchod. Fel y nodwyd yn ein herthygl ddiwethaf, ieuid yr ychen yn ddeuoedd fel arfer, a'r tebyg felly, yn achos y gân hon, yw bod y Duon wedi eu hieuo â'i gilydd a'r Llwyd ar y blaen yn eu harwain – a dyna, hwyrach, y rheswm dros annog y Llwyd i fynd 'ar ras'.

Cofnododd Iolo Morganwg nifer o dribannau y clywodd gathreinwyr yn eu canu ym Mro Morgannwg, megis y rhai a ganlyn:

Mae'n rhaid cael dyn deallus
I drin yr âr yn drefnus
Cyn dyco'r ddaear fyth ei ffrwyth
I dalu'r pwyth yn felys.

Mae'r merched yn llawenu
Wrth weld y caeau'n glasu,
O! gan ddywedyd, 'Fe ddaw'r haf
Ac amser braf i garu.'

Ond fel y gwelwn o'i lythyr at y geiriadurwr William Owen Pughe, dyddiedig 19 Rhagfyr 1802, casglodd Iolo benillion ar fesurau eraill hefyd. Meddai yn y llythyr hwnnw, 'You want *penillion i'w canu efo'r delyn*. Here is one for you that I picked out of the mouth of a ploughboy a few days ago', gan fynd yn ei flaen i ddyfynnu'r pennill hwn:

Fe gwyn yr haul er machlud heno,
Fe gwyn y lloer yn ddisglair eto,
Cwyn blodau'r haf o'r ddaear dirion –
Ond byth, O! byth ni chwyn fy nghalon.
*Ho! da 'machgen i. Ho! dere-dere; dere-dere. Ho! O! Ho!*

Yn aml yn y traddodiad llafar, cenir dau bennill arall gyda'r pennill hwn. Ond cyn eu dyfynnu, gwell oedi gyda'r gair 'cwyn' sy'n digwydd sawl tro yn y pennill uchod. Peth cyffredin yn achos penillion sy'n mynd ar led ar lafar gwlad ac sy'n cael eu traddodi o genhedlaeth i genhedlaeth, yw bod amrywiadau geiriol, mân a mawr, i'w gweld rhwng y gwahanol fersiynau ohonynt; a cheir amrywiadau hefyd yn y cyfuniadau o benillion. Dyna sy'n wir am yr holl ganeuon sydd wedi eu hatgynhyrchu yma, ac mae'r gair 'cwyn' yn enghraifft dda o hynny.

'Cwyn' sydd yn y pennill yn llythyr Iolo, ac fe ddaw o'r ferf 'cwnnu', sy'n golygu 'codi, dyrchafu, esgyn'; ond mewn rhai fersiynau o'r pennill, yr hyn a geir yw 'cwn' yn hytrach na 'cwyn', a hynny'n adlewyrchu ynganiad y gair ar lafar. Ac mewn fersiynau eraill wedyn, mae 'cwyn' a 'cwn' wedi eu cyfnewid am air mwy cyfarwydd, sef 'cwyd', o'r ferf 'codi'.

Gwelir yr un amrywiadau rhwng 'cwyn', 'cwn' a 'cwyd' mewn gwahanol fersiynau o'r ddau bennill llawn hiraeth a ddyfynnir isod. Fel y nodwyd eisoes, fe'u cyplysir yn aml â'r pennill sydd yn llythyr Iolo at William Owen Pughe, ac maent yn dilyn yr un patrwm ac ar yr un thema â'r pennill hwnnw. (Ystyr 'irad' yw 'cwynfanus; garw'):

Fe gwyd yr haul, fe gwyd y lleuad,
Fe gwyd y môr yn donnau irad,
Fe gwyd y gwynt yn uchel ddigon:
Ni chwyd yr hiraeth byth o 'nghalon.

Fe gwyd yr haul pan ddêl boreddydd,
Fe gwyd y tarth oddi ar y dolydd,
Fe gwyd y gwlith oddi ar y meillion:
Gwae fi, pa bryd y cwyd fy nghalon?

Fel y nodwyd yn gynharach, gwelwn yn aml yn y traddodiad llafar yr un penillion yn digwydd mewn cyfuniadau gwahanol ac amrywiol iawn, ac mae'r ddau bennill hyn yn esiamplau da o hynny. Er enghraifft, y pennill sy'n sôn am 'hiraeth' yw'r olaf yn y gyfres adnabyddus o benillion telyn yng nghasgliad T. H. Parry-Williams, *Hen Benillion* (1940), sy'n dechrau 'Dwedwch, fawrion o wybodaeth,/ O ba beth y gwnaethpwyd hiraeth'. Ac yn achos y pennill arall, dyna bennill clo cerdd gan Iolo Morganwg sydd i'w gweld yn *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg*, gol. P. J. Donovan (1980):

Mae man yn bod, a man yng Nghymru,
O fannau'r byd ag wy'n ei garu,
Lle bûm yn rhodio glan yr afon,
Gyda'r ferch â'r ddwyael feinion.

O! ble mae'r ferch â'r ddwyael feinion?
O! ble mae'r un a garai 'nghalon?
Tywarchen las sy'n gorwedd arni,
A 'nghalon innau'n drom ar dorri.

Fe gwyn yr haul pan ddêl boreddydd,
Fe gwyn y tarth oddi ar y meysydd,
Fe gwyn y gwlith oddi ar y meillion:
Gwae fi! pa bryd y cwyn fy nghalon?

Mae'n bosibl iawn, yn wir, mai Iolo oedd awdur y tri phennill a ddyfynnwyd uchod sy'n dechrau 'Fe gwyn/ gwyd yr haul…' Dyma, i mi, yr hyfrytaf oll o'r penillion a genid i'r ychen. Anodd meddwl am benillion mwy swynol mewn unrhyw iaith.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EBENESER

**30 mlynedd yn Ebeneser**
Ar 1af o Ebrill 1995 cafodd y Parchg Alun Tudur ei sefydlu yn weinidog ar Ebeneser. Mae Alun wedi bod yn gaffaeliad arbennig inni fel eglwys. Gwerthfawrogwn ei gyfeillgarwch, ei gynhesrwydd, a'i natur hwyliog. Diolchwn iddo am 30 mlynedd o wasanaeth ysbrydoledig ac ymroddedig, a'i gefnogaeth cyson, ddiwyro inni fel cynulleidfa.

**Cleifion**
Cofiwn am ein cyd-aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi neu gartrefi gofal: Delor Wedlake, Mair Evans, Rhian Ruddock. Mae Rhian wedi symud yn ôl i'w chartref. Mae Arwel Williams yn Ysbyty'r Brifysgol oherwydd anhwylder. Dymunwn wellhad buan ac adferiad iechyd i bob un sy'n teimlo'n anhwylus.

**Cyrddau Pregethu**
Braf oedd cael croesawu Geraint a Carolyn Tudur yn ôl i'n plith a chael pryd o fwyd sylweddol wedyn. Yn y bore, pregethodd Geraint ar Agape - cariad Cristnogol, ac yn y pnawn, ar yr angen mawr inni weddïo heddiw. Gellir gwrando ar yr hyn ddywedodd ar gyfrif SoundCloud Eben. https://soundcloud.com/user-336770346, YouTube, neu i'w lawrlwytho ar ypod.cymru.

**55 mlynedd**



9fed o Ebrill 1970 oedd hi pan gafodd Malcolm Thomas, a'r diweddar Eira Jones, Dr Denzil Davies ac Aneurin Lewis, eu neilltuo yn ddiaconiaid yn Ebeneser, Paradise Place dan weinidogaeth y Parchg Emlyn Jenkins. Mae Malcolm yn parhau yr un mor weithgar heddiw ag erioed. Diolch iddo am ei wasanaeth diflino.

**Cwrdd Gweddi**
Braf oedd croesawu Jim a Caleb Stuart i'r cwrdd gweddi ar nos Lun, 10fed o Fawrth. Fe oleuodd Jim ein meddyliau a chyffwrdd ein calonnau wrth agor y drws i'r erlid sy'n digwydd ar Gristnogion mewn llawer gwlad, a chyflwyno gwaith pwysig yr elusen *Open Doors*. Rhannodd y cyfarfod i dair rhan gan aros ennyd i weddïo dros Gristnogion yn Eritrea, Bangladesh a chyfandir Affrica sy'n cael eu herlid. Diolch Jim am dy waith ac am y cyflwyniad ardderchog.

**Llongyfarchiadau...**



...i Beca Glain Hayes ar dderbyn ei thystysgrif fel cyfreithwraig, ddydd Gwener, 21ain o Fawrth. Fe'i cymhwyswyd y llynedd. Mae hi'n arbenigo mewn Cyfraith Cyflogaeth.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**'Yn y Dechreuad'**
Mae Lois Adams yn artist cymunedol, yn gweithio'n rhannol dros yr eglwys, ac ym mis Mawrth bu'n cynorthwyo yn ymgyrch Pwllheli a Tudweiliog yng Nghapel y Drindod, Pwllheli, o dan y teitl 'Yn y dechreuad'. Cofiwn mai dyna eiriau cyntaf llyfr Genesis. Yn ystod yr wythnos gyntaf bu'n cynnal gweithdai yn rhai o'r ysgolion lleol gan annog y plant i lunio celf oedd yn dehongli'r thema iddyn nhw.
Yn ystod yr ail wythnos cynhaliwyd arddangosfa o waith y plant, ynghyd â gwaith gan artistiaid lleol a daeth llawer o'r gymuned i weld a gwerthfawrogi'r gwaith. Ar y nos Fercher bu'r Athro Emyr Macdonald o Brifysgol Caerdydd yn darlithio ar wedd wyddonol y thema ac ar y Sul cynhaliwyd gwasanaeth arbennig gyda'r Parchg Bryn Williams yn pregethu.

**Dathlu pen-blwydd**
Hyfryd yn ddiweddar oedd dod ynghyd yng nghartref Dewi a Leri i ddathlu pen-blwydd arbennig Mari, Amanda, Anwen a Lois.

**Bore Siarad Cymraeg**
Cynhelir Bore Siarad Cymraeg ar ail Sadwrn y mis yn Hyb Riwbina am 10.30 o'r gloch. Fis Mawrth bu Dewi George yn trafod y nofel 'Sgythia' gan Gwynn ap Gwilym. Fis Ebrill disgwyliwn Marc Evans i sôn am y gwahanol gyfnodau yn ei fywyd.

**Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**
Mae'r sesiynau yma dan arweiniad yr Athro Wyn James yn parhau bob nos Iau am 8 o'r gloch ar Zoom. Mae croeso i unrhyw un ymuno drwy gysylltu â Wyn ar JamesEW@caerdydd.ac.uk. Mae pawb sy'n mynychu yn tystio i'r budd a'r bendith a gânt.

## BETHEL, PENARTH

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Nefydd, Sandra, Betsan a Llinos yn eu galar yn dilyn marwolaeth tad Nefydd.
Anfonwn feddyliau cynnes at Eifion, Alun ac Eirlys.
Anfonwn gyfarchion arbennig iawn at Helen ar ddathliad arbennig iawn.
Bu Cyngor Bethel yn rhoi sylw yn ddiweddar i gyfansoddiad yr eglwys gyda golwg ar ddiweddaru at ofynion newydd. Diolch i Rhodri am gyfarwyddyd doeth.
Sul Mawrth 2: Wrth gyfeirio at gyfnod dathlu ein nawddsant seiliodd ein gweinidog ei fyfyrdod ar arfer yr apostol Paul o gychwyn ei lythyrau gyda chyfarchiad at 'y saint'. Fe'n heriwyd i ystyried nodweddion 'saint' ac i hunan-asesu.
Sul Mawrth 9: Buom yn parhau i ystyried gwaddol ein nawddsant gyda gwerthfawrogiad. Clywsom eiriau Y Salmydd (rhif 33), Gerallt Lloyd Owen, T.H. Parry-Williams a Mererid Hopwood. Hefyd cawsom ddysgu ychydig am hanes Henry Richard (Heddychwr), Rhiannon Lloyd (Cymodwraig), William Jones (mathemategydd), trwy leisiau Joanna, Owen a Neville. Hyfrydwch pur oedd gwrando ar ddatganiad telyn gan Indeg i agor a chloi'r cyfarfod.
Sul Mawrth 23: Cawsom gwmni'r Parchedig Aled Edwards. Darllenwyd Luc 13, 1-9. Hoeliwyd ein sylw at y cwestiwn brawychus, 'A ydych chwi'n tybio fod y rhain yn waeth troseddwyr na holl drigolion eraill Jerwsalem?' Cyfeiriwyd at Gaza a'r honiad gan rai bod dioddefaint mawr yn dilyn pechodau mawr. Ac ateb Iesu, 'Nac oeddent …; eto , os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch…'.
Wrth lunio'r nodiadau hyn, edrychwn ymlaen at ein tro mewn trefn gydag eglwysi eraill Penarth i ddarparu ciniawau Tymor y Grawys.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn sâl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rydym yn dymuno'n dda iddynt am wellhad llwyr a buan.

Croeso i'r byd i Tomos Gerwyn Marshall – Twm, ail fab i Gareth ac Undeg Marshall; brawd i Llywelyn; ŵyr i Manon Antoniazzi a gor-ŵyr i Emyr a Myra Jenkins. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r teulu cyfan.

Llongyfarchiadau a diolch i Gareth Rhys Davies ar gymryd rhan yn y Farathon Gerdded o Gastell Cyfarthfa i Gastell Coch er budd Hosbis y Ddinas. Da iawn ti Gareth.

**Cydymdeimlad**

Un o blant Ysgol Sul Y Crwys oedd Geraint Jarman ac roeddem fel Eglwys yn falch iawn o'i lwyddiant. Mae'n cydymdeimlad dwysaf gyda'r teulu, ei briod Nia, y merched Lisa, Hanna a Mared a'i chwiorydd Tanwen a Catrin yn eu profedigaeth. Coffa da am ei ddiweddar fam, Mrs Myfanwy Jarman, un o bileri Y Gymdeithas Ddrama.

**Clwb Clebran**

Mae Rhian Roberts, un o'n haelodau, yn bwriadau sefydlu Clwb Clebran yng Nghartref Gofal Heol Don yn yr Eglwys Newydd. Bydd yn Glwb anffurfiol er mwyn i'r Cymry Cymraeg sydd yno ddod at ei gilydd unwaith y mis i gymdeithasu yn eu mamiaith. Byddai Rhian yn falch iawn o unrhyw help yn enwedig os oes doniau arbennig i'w rhannu. Gellir cysylltu ag unrhyw Swyddog yn yr Eglwys i'ch rhoi mewn cysylltiad â Rhian. Diolch iddi am ei gweledigaeth.

**Cyngherddau**

Cynhaliwyd dau gyngerdd gwefreiddiol yn y Crwys yn ystod mis Mawrth a diolch i'r ddau Gôr – Aelwyd y Waun Ddyfal a Chôr CF1 – am eu cyfraniadau. Diolch hefyd i Thomas Williams am y trefniadau.

**Trefn Oedfaon mis Mai, 10.30 a 6.00 o'r gloch**

Mai 4ydd – y Parchg Dafydd Andrew Jones gyda'r oedfa foreol yn Oedfa Gymun.

Mai 11eg – Cyfarfodydd Pregethu o dan arweiniad yr Athro Ddr John Tudno Williams. Gwahoddir ein cyfeillion o Eglwysi Cymraeg Caerdydd i ymuno â ni yn yr oedfa hwyrol.

Mai 18fed – Bore: Gwasanaeth Cymorth Cristnogol; Hwyr: Mr Thomas Williams.

Mai 25ain – Yr Athro Ddr Eryl Wyn Davies.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon / Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m.):**

**Ebrill 2025:**

6 – Oedfa Gymun - Delwyn Sion
13 – Oedfa - Cwrdd Merched [Dim YS]
18 – Oedfa Gwener y Groglith (10:00 a.m.)
20 – Oedfa Sul y Pasg [Dim YS]
27 – "Gorffennwyd" - Côr y Capel ac eraill (am 6.00 p.m.) [Dim YS]

Wrth i mi baratoi'r ychydig hyn o eiriau, mae hi o fewn dim i fod yn Sul y Fam.

'Roeddwn yn chwilota drwy lyfrau oedd ym mherchnogaeth fy nhad y dydd o'r blaen – llyfrgell a oedd, ers cloi'r cartref am y tro olaf bron i ugain mlynedd yn ôl, bellach yn fy meddiant i.

Ar hap, cydiais yn y gyfrol *Ysgrifau* - Dewi Emrys, ac wrth droi'r tudalennau, fe syrthiodd darn (ddigon blêr yr olwg) o bapur newydd wedi melynu o'i grombil, a glanio'n daclus wrth fy nhraed.

Nid oedd na dyddiad nac enw'r papur i'w weld arno yn unman, ond 'roedd y teitl 'Nebo a'r Cylch' yn ddigon o awgrym mai hanes bro mebyd fy nhad fyddai ar glawr ar y sgrapyn di-nod yma.

A'r hyn oedd ar y pishyn papur oedd cofnod o farw a chladdu mam fy nhad (a fy nain innau, er na chwrddais i â hi gan iddi farw cyn i mi gael fy ngeni!).

Gwn, o adnabyddiaeth dda o ddull fy nhad o ysgrifennu, mai ef oedd awdur y cofnod yma, a gwn o'r geiriau a gofnodwyd am ei gariad at ei fam.

Bu farw fy Nain Nebo, fel y cyfeiriem ati, ar y 3ydd o Ebrill 1949:

*"Bu'n ffyddlon ryfeddol i'r achos yn Nebo; daliodd i fynd i'r moddion tra medrodd. Bu'n gymwynasgar iawn yn ei chylch, yn garedig a lletygar yn ei chartref - a chartref glanwaith dros ben fyddai ganddi. Mae llawer wedi troi am sgwrs a chwpanaid i Ben'rallt ar hyd y blynyddoedd meithion y bu yno."*

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd hi'n Sul y Mamau ar Sul olaf y mis ac yn yr Offeren cawsom ddathlu Sul 'laetare'. Dyma pryd byddwn yn nodi hanner ffordd drwy daith y Grawys, a chawn ein hatgoffa bod llawenydd y Pasg yn dilyn dioddefaint dydd Gwener y Groglith. Mae dathlu ein mamau yn hen draddodiad ar bedwerydd Sul y Grawys sydd wedi mynd yn ffair fasnachol erbyn hyn, felly roedd yn braf cael llawenhau a chofio'r rheswm tu ôl i'r rhialtwch yn y siopau.

Mae traddodiad Ffordd y Groes yn ddefosiwn sy'n ein harwain ar ein taith drwy'r Grawys, pan fyddwn yn gweddïo o gwmpas yr eglwys gan fyfyrio ar safleoedd dychmygol yn nhaith Iesu tua'r Groes. Bydd gwasanaeth penodol unwaith yr wythnos mewn llawer o'n heglwysi, ac mae fersiwn Gymraeg ar gael ar YouTube a gyhoeddwyd gan Eglwys Gadeiriol Caerdydd rai blynyddoedd yn ôl (chwiliwch ar-lein am 'Ffordd y Groes Cardiff Cathedral'). Gan ein bod yn gallu gwylio ar y ffôn yn ein poced bellach, mae'n bosib dilyn y ddefosiwn yn ein cynefin hefyd. Mae'r myfyrdod, sy'n defnyddio delweddau o fewn yr eglwys, yn para ychydig dros hanner awr, felly gallwn gymryd saib o'n bywydau prysur a chrwydro neu oedi mewn gweddi.

Yn ystod Blwyddyn y Jiwbilî, bydd llawer o'r ffyddloniaid yn mynychu eglwysi neu safleoedd sydd wedi eu penodi'n fannau arbennig i ni fel Pererinion Gobaith, ac un o'r rheiny yw eglwys Gatholig Llanilltud Fawr. Cynhaliwyd diwrnod cyfan o addoliad a myfyrdod yno ddydd Gwener 28 Mawrth – deuddeg awr pan fuodd pobl yn galw i mewn, neu'n aros am awr fach, gan orffen yn yr hwyr gydag Offeren i'r ardal gyfan, Deoniaeth Mair o Benrhys. Roedd yn gyfle arbennig i ni sy'n byw yn Y Fro wneud ymdrech i gael hoe a chanolbwyntio ar ein bywydau ysbrydol yn y cyfnod pwysig hwn.

Mae'r Eglwys fyd-eang yn dal i weddïo dros y Pab Ffransis wrth iddo adael yr ysbyty a dychwelyd adre i wella ar ôl y salwch fu bron â'i lethu. Diolchwn ei fod nawr yn gobeithio cryfhau a pharhau gyda'i alwedigaeth i arwain yr Eglwys yn y dyddiau cythryblus hyn.

Offeren fisol: Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd, 4.30y.h. ar Sul olaf y mis:
27 Ebrill
25 Mai
29 Mehefin

## EGLWYS DEWI SANT

**Digwyddiadau Cerddorol**

Cynhaliwyd cyngerdd awr ginio dan nawdd *Actifyddion Caerdydd* ddydd Mawrth, 4ydd o Fawrth yn EDS. Alis Huws, cyn-delynores Frenhinol Swyddogol, oedd y datgeinydd.

Bore Iau, 27ain o Fawrth, gwahoddwyd aelodau EDS i gyngerdd byr a drefnwyd gan Gerddorfa Dovetail fel rhan o'r prosiect cerddorol sy'n darparu lle croesawgar i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn yr eglwys. Ffrwyth llafur wythnosau o ymarfer ers mis Ionawr oedd cynnwys y rhaglen. Mwynhawyd cyfansoddiadau gwreiddiol a pherfformiad o '*Dacw 'Nghariad i lawr yn y Berllan'*.

**Dathlu Gŵyl Ddewi**

Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni fore Sul, 2il o Fawrth. Ein curad, y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones, oedd yn pregethu. Diolch iddo am ei genadwri amserol. Cafwyd eitem hyfryd hefyd gan blant bach yr Ysgol Sul. Yn dilyn, yn neuadd yr eglwys, mwynhawyd cinio ysblennydd wedi'i baratoi gan aelodau Cylch Dewi. Diolch iddynt am y wledd.

**Bore Coffi a Chlonc**

Cafwyd cyfarfod fore Sadwrn, 15eg o Chwefror, gyda nifer o ffrindiau newydd yn ymuno â'r grŵp.

**Cymdeithasu**

Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros ginio ddydd Mawrth, 25ain o Chwefror, yn Côte Brasserie yng nghanol y ddinas. Y gŵr gwâdd oedd y cyfansoddwr Geraint Lewis ac yn ei sgwrs agorodd gil y drws ar ei daith ffydd gan nodi'r capeli ac eglwysi a ddylanwadodd arno fel cerddor a chyfansoddwr. Diolch iddo am sgwrs ddifyr ac i Rhys a Delyth am drefnu.

Treuliwyd pnawn difyr o gymdeithasu, Mercher, 26ain o Fawrth, ar daith dywys o amgylch Canolfan y BBC. Cafwyd cyfle i ymweld â stiwdio recordio teledu, a dysgu am y sgrin werdd a'r dechnoleg sy'n bywiogi'r profiad o wylio teledu, stiwdio recordio Dylan Thomas, stiwdio radio Cymru ac ystafell ddarlledu S4C. Diolch i Shân am drefnu.

**Cydymdeimlo**

Gyda gofid y derbyniwyd y newyddion trist am farw Gwenllian Lloyd, mam Dyfrig ein Ficer. Cydymdeimlwn yn ddwys ag ef a'r teulu oll yn ei galar a'u hiraeth.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

**Diwedd tymor y Gymdeithas**

Daeth bron i hanner cant o aelodau at ei gilydd i Ginio Pen Tymor y Gymdeithas yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd nos Fawrth, 25 Mawrth. Pleser fu croesawu ein cyfaill a'n cyd-aelod Aled Gwyn yn westai arbennig. Yn ei ddull nodweddiadol o hwyliog a chynnes, cawsom ganddo gyfres o atgofion bore oes i'n diddanu. Ochr yn ochr â'r ysgafn, cyfeiriodd Aled at neges bwysig cyfres bregethau diweddar ein gweinidog ar bwysigrwydd cymdeithas mewn cyfnod ansicr.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 6 (oedfa gymun yn y bore), 13 (Sul y Blodau) a 20 Ebrill (Sul y Pasg; oedfa gymun yn yr hwyr). Byddwn yn croesawu'r Parchg Richard Cleaves i arwain yr addoliad ddydd Sul, 27 Ebrill. Yn ystod oedfaon bore Sul 6, 20 a 27 Ebrill y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod a bydd cyfle i PIMS ddod ynghyd am 17:00 ar 6 Ebrill. Fore Sul y Pasg, 20 Ebrill, cynhelir gweithgaredd arbennig i deuluoedd ifanc yr eglwys, *Teulu Mini* – cyfle i'r plant gymdeithasu tra bo'r rhieni'n mwynhau paned a sgwrs.

**Gweithgarwch y mis**

Mae gweithgareddau mis Ebrill yn cynnwys bore coffi yng nghartref aelod fore Iau, 3 Ebrill; pryd o fwyd gyda'r hwyr (Koinônia) nos Sul y Pasg; cyfle i gerdded a chael clonc ar fore Mawrth. Minny Street fydd yn cynorthwyo gyda darpariaeth y Ganolfan Glyd yn y Tabernacl, yr Ais brynhawn Sul, 6 Ebrill.

Pasg hapus i bawb.

## BETHEL, RHIWBEINA

Braf oedd croesawu ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan yn ôl i'n plith ar Fawrth y 9fed wedi cyfnod o anhwylder.

Diolch yn fawr i Rosina Davies a Carol O'Donnell am gynrychioli Bethel yn y gwasanaeth gweddïo byd-eang a gynhaliwyd yng nghapel y Methodistiaid yn yr Eglwys Newydd ar Fawrth y 7fed. Daeth llu o bobol o wahanol gapeli ac eglwysi'r ddinas ynghyd ar gyfer yr achlysur arbennig hwn.

Rydym yn falch i glywed bod Rayanne James wedi dod gartre o'r ysbyty wedi cael llawdriniaeth. Rydym yn dymuno adferiad buan iddi.

Yn ystod mis Ebrill byddwn yn cwrdd am ginio mewn bwyty lleol i ddathlu dyfodiad y Gwanwyn a'r Pasg.

Bydd Evan yn cynnal gwasanaeth cymun ar Sul y Blodau ac ar Sul y Pasg cawn gyfle i ymuno gyda'r aelodau yn Salem.

Cynhelir yr ysgol Sul nesaf ar Ebrill y 13eg.



**Aelodau o grŵp Caerdydd, Prosiect Cerddorfa Dovetail, yn perfformio'n Egwys Dewi Sant**

## SALEM, TREGANNA

**Gwasanaeth Gŵyl Dewi**

Cafwyd Gwasanaeth Gŵyl Dewi hyfryd iawn fore Sul 2 Mawrth. Diolch i'r bobl ifanc am eu cyfraniadau ac i'r athrawon am eu harweiniad. Diolch, hefyd, i Dewi Rhisiart am lunio'r gwasanaeth.

Roeddem hefyd yn falch iawn o weld Evan yn ôl yn ein plith, ac yn falch o'i weld yn gwella. Diolch iddo am ei arweiniad.

**Adran yr Urdd Salem** – i unrhyw blentyn oedran cynradd – does dim angen bod yn aelod yn Salem. Dymuniadau gorau i bawb o Adran Salem sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Caerdydd a'r Fro. Byddwn yn croesi bysedd drosoch chi i gyd.

**Gweithgareddau eraill**

**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin - **Bore Mercher 2 Ebrill** a **30 Ebrill** rhwng 9.45 a 11.15

**Clwb Coffi** – **Bore Gwener 11 Ebrill** a **9 Mai** rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

Os hoffech ragor o fanylion am ein gweithgareddau neu ein gwasanaethau, dilynwch ni ar Facebook, neu ewch i wefan Salem: Capelsalem.org.


*Dathlu Gŵyl Dewi, Salem*

## TABERNACL, YR AIS

Dathlu a phererindota yw thema adroddiad Tabernacl yr Ais y mis hwn. Mae dathlu geni ac atgyfodi Crist yn ganolog i'n haddoli, ond dyma'r adeg y dathlwn ein Nawdd Sant, Dewi. Bu'n gyfnod cyffrous. Yn gyntaf darlledwyd gwasanaeth Gŵyl Ddewi o'r Tabernacl yn rhan o'r gyfres *Celebration.* Lluniwyd y gwasanaeth ar thema pererindota gan ein gweinidog, Y Parchedig Ddoctor Rosa Hunt, a phriodol oedd iddi holi un o'r aelodau, Huw Roberts, am ei brofiad sylweddol i lefydd megis Santiago di Compostella neu Dŷ Ddewi. Bu'r pererindota yn fodd iddo ddyfnhau ei ffydd Gristnogol.

Darllenodd Dafydd Huw rannau o Efengyl Luc (24. 13-32) pan oedd Cleopas a'i gyfaill yn pererindota i Emaus, bore'r trydydd dydd. Meddai Rosa wedyn, 'gadewch inni annog Iesu i aros gyda ni ac agor ein calonnau wrth inni wrando ar gôr Taflais yn canu *Tangnefeddwyr* dan arweiniad Caradog Jones.'

Cymerwyd rhan hefyd gan gôr yr eglwys o dan arweiniad Shirley Ann James, a Dafydd Huw yn cyfeilio.

Bu Sian a Huw Thomas yn pererindota i Jamaica, ac ar draeth Negril ysbrydolwyd Huw i gyfieithu emyn adnabyddus Pantycelyn. Fe'i canwyd yn y gwasanaeth:

Tywys fi, o fawr Jehofa,
drwy'r anialdir crin, di-berth;
gwan bererin wyf, wyt gadarn;
dal fi'n dynn yn llaw Dy nerth:
bara'r nefoedd,
bwyda fi holl ddyddiau f'oes.

Agor 'nawr y ffynnon loyw,
tarddle'r ffrwd iachaol, fyw;
gad i'r golofn fyglyd, danllyd
f'arwain gydol 'nhaith at Dduw:
gryf waredwr,
bydd fy nharian, bydd fy nerth.

A phan droediaf lan Iorddonen,
aed 'mhryderon, aed pob braw:
drechwr angau, drechwr uffern,
clud fi'n saff i'r Ganaan draw:
mawl a moliant
fydd am byth fy nghân i Ti.

Nos Sul Mawrth 2 trefnwyd gwasanaeth dathlu gan Rhys ab Owen, a nos Fawrth bu cinio traddodiadol Gymreig; y siaradwraig wadd oedd un o'n haelodau. Cewch fanylion yn rhifyn Mai.

# Dydd Gweddi'r Byd 2025

Ar Fawrth 7fed daeth eglwysi Cymraeg Caerdydd at ei gilydd fel rhan o Ddydd Gweddi'r Byd i gynnal gwasanaeth yn addoldy presennol Ebeneser yn yr Eglwys Fethodistaidd, Yr Eglwys Newydd.

Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Ynysoedd Cook, lle cynhaliwyd oedfa gyntaf yr elusen hon yn 1971. Y thema eleni oedd "Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol", o Salm 139. Soniodd y merched am eu hymdrechion ar yr ynysoedd yn ystod cyfnod anodd Covid, y gwelliannau ym myd obstetreg i ferched yno, a'u brwydr i amddiffyn eu diwylliant a'u hieithoedd brodorol. Testun llawenydd sydd yn y salm, yn ein hatgoffa bod Duw yn ein hadnabod yn bersonol, wedi ein gwneud yn rhyfeddol ac yr ydym ni, yn yr un modd, i drin pobl eraill fel ei blant annwyl. Gwers amserol iawn i ni yn y cyfnod hwn yn ein hanes.

Cymerodd gynrychiolwyr o holl eglwysi Cymraeg Caerdydd ran yn y gwasanaeth. Ebeneser oedd yn gyfrifol am y trefniadau gan gynnwys addurniadau'r capel: blodau a dail cnau coco, blodyn ffres lliwgar i bob un o'r gynulleidfa a thorchau o flodau i'w gwisgo gan y llefarwyr. Clywyd sŵn y môr ar ddechrau'r gwasanaeth i'n hatgoffa o'r ynysoedd a'n gwahodd i dawelu a myfyrio ar air Duw.

Cyfrannodd pob capel ac eglwys at y te a'r cacennau. Mynychodd dros saithdeg o bobl yr oedfa ac arhosodd pawb i gael te a chymdeithasu, a chasglwyd £484 at yr elusen.

Byddwn yn cynnal oedfa eto flwyddyn nesaf, ym mis Mawrth, sef gwasanaeth a fydd wedi ei baratoi gan ferched o Nigeria. Ymunwch gyda ni!

# Bwytai Merch y Ddinas



## *Y Tŷ Cymreig*

**Lowri Haf Cooke**

A hithe'n fore braf o wanwyn nes i brancio i fewn i'r dre, heibio lawnt braf Neuadd y Ddinas – wedi'i hadfer ers Gŵyl y Gaeaf – a chennin pedr Gerddi'r Oesedd. Pefriai lliwiau llachar o 'nghwmpas, a sgleinia'r haul yn llachar uwchben. Roedd yn un o'r dyddiau hyfryd hynny, a minnau ar fy ffordd i gwrdd â ffrind. Ac fe ges i 'nharo gan yr ysfa, sy'n disgwydd bob hyn a hyn, i fihafio fel ymwelydd yn fy mhrifddinas fy hun.



Chwarae teg, ry ni'n byw mewn dinas hyfryd, yn enwedig ar ddiwrnod braf. A bydda i'n aml yn meddwl tybed beth mae twristiaid *wir* yn meddwl o'n prifddinas? Wedi'r cyfan, maen nhw'n ymweld am rai dyddiau gyda phersbectif newydd sbon.Tybed faint ohonynt aiff i'r Amgueddfa, Sain Ffagan, y Stadiwm? Neu beth am y Barc y Rhath, Parc Biwt a'r Bae – a Chanolfan y Mileniwm? Dwi'n deall nad oes modd gwneud *popeth*, ond dwi'n dymuno amser braf iddynt! Dwi hefyd – yn naturiol – yn croesi 'mysedd y cawn nhw brofiad bwyta Cymreig; wedi'r cyfan, rhwng yr holl fwytai cadwyn a chosmopolitaidd yng nghanol y ddinas, gallech fod yn unrhywle yn y byd.



Ie, prin yw'r bwytai hynny sy'n cynnig 'blas' o Gymru yn y ddinas – i ymwelwyr a thrigolion lleol. Ydy, mae Canna Deli yn ffantastig ym Mhontcanna, ac mae'n gret gweld Fabulous Welshcakes ger y castell, a lawr y Bae. Ac mae cwmni Siân Roberts, Loving Welsh Food, yn cynnig teithiau cerdded difyr dros ben yng nghanol y dre. Ond dros y blynyddoedd caewyd The Armless Dragon, Le Gallois, a'r Hen Lyfrgell, heb sôn am yr Ystafell Gymraeg. Felly, a finne wedi pasio The Welsh House droeon ers iddo agor dwy flynedd yn ôl, dyma benderfynu archebu bwrdd yno am ginio...

Dyma fwyty a bar a sefydlwyd gyda chefnogaeth cyn-chwararwyr rygbi Cymru: Mike Phillips, James Hook, Shane Williams a Lee Byrne yn eu plith. Y bwriad o'r cychwyn oedd gweini bwyd a diod Cymreig, mewn ardal sy'n llawn bwrlwm yng nghanol y dre. Sylwais droeon ar ei boblogrwydd ar benwythnosau rygbi, o flaen y Castell ar hyd y Stryd Fawr, a meddwl i'n hun dyna leoliad gwych, gyda'r gorau yng Nghaerdydd.

Cyrhaeddais yn brydlon, am un o'r gloch, a'r gân gyntaf a glywais wrth eistedd i lawr oedd 'Ysbryd y Nos'. Nawr dyw hynny ddim yn digwydd yn aml mewn bwyty yng nghanol Caerdydd... a braf hefyd oedd gweld potel las o ddŵr Ty Nant gyda chenhinen bedr yn aros amdanaf ar y bwrdd! Buodd na gryn hel clecs gyda Dorian, oedd yn llawn straeon o'i daith ddiweddar o'r UDA. Ymysg ei uchafbwyntiau: ymweliad â Taliesin West ger Scottsdale, Arizona, a chanfod cofnod o hen-hen-ewyrth mewn bas data yn Salk Lake City, Utah. Teg dweud, rhyngtha i a Dorian, bod y ddau ohonom wedi teithio gryn dipyn. Felly roedd yntau yr un mor chwilfrydig a minnau i ddarganfod os oedd y Tŷ Cymreig yn llawn danteithion, ynteu'n orlawn o ystrydebau.

Pan holais iddo pa bum bwyty dinesig y byddai'n annog i ymwelwyr fynd iddynt am flas o'r Gaerdydd, dyma oedd ei atebion: bar Curado ger y Stadiwm, pitsa Ffwrnes yn y farchnad; am gyri, Salkara (ceir canghennau yn y Rhath a Llandaf) ac am frecwast, Milkwood Pontcanna. Ac am brofiad Cymreig, cynigodd fwyty gwych Mesen, Rhiwbeina. Ydy, mae e'n gw'bod ei stwff! Ond sut tybed fyddai The Welsh House yn plesio'r jet-setter hwn, sydd yn meddu ar fwy o *air-miles* na James Bond?

Wel i ddechrau, gallen i fod wedi aros trwy'r dydd a nos i brofi pob un cwrs; chwarae teg, mae ganddynt ddewis o seigiau sy'n fwy na pharchus. Taswn i wirioneddol ar lwgu, bydden i'n sicr wedi archebu tri chwrs; i ddechrau, roedd dewis rhwng Cawl Nionyn a Seidr Cymreig, Hoc Ham Shir Gâr, a Chocos a Bara Lawr ar Grostini Caws Pob. Neu, well fyth, beth am blatiad o

seigiau amrywiol i rannu am £17.95? Yna'n brif gwrs, ceir dewis helaeth o gigoedd, fel golwythion eidion, neu 'chops' cig oen a phorc, a'r ffefryn bythol boblogaidd, platiad o sgod a sglods. Ceir dewis da i lysieuwyr, gan gynnwys mac a Chaws Eryri blas cloron (truffle) a madarch gwyllt. Ond aeth y ddau ohonom ni yn syth am ddewis y galon, ac at flas cartrefol a hynod gysurlon ffagots, gyda pys a thatws stwnsh a grefi bacwn (£17.95).

Fe sglaffiodd y ddau ohonom ein cinio, a chlirio'n platiau yn llwyr. Roedd y meintiau mor hael, bron nad oedd lle yn bol i gael profi'r uwchafbwynt, sef pwdin. Trwy drugaredd, fe ffeindion ni'r nerth i rannu'r pwdin bara menyn, gyda chwstard fanila cynnes a charamel hallt gan Crwst, Aberteifi (£7.95). Godidog! Yn ystod ein eisteddiad clywsom ragor o anthemau Cymraeg, gan Yr Ods, Meinir Gwilym, Candelas a Dafydd Iwan. A heblaw fod gwaith yn galw, galle'r ddau ohonom fod wedi aros yno, yn bloeddio canu 'ry' ni yma o hyd' ac yn llymeitia drwy'r p'nawn yn yr heulwen. 'Pleserus iawn' oedd dyfarniad Dorian, a coeliwch chi fi, mae hynny'n dipyn o ganmoliaeth. Tan y tro nesa, felly! Edrych ymlaen at gael gwibdaith fach arall i brofi'r ddinas trwy sbectols haul yr ymwelwyr.

The Welsh House, 5 Y Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1AW; 02920 806067

*Bwytai Cymru a Gwledd* gan Lowri Haf Cooke, ar werth yn eich siop lyfrau lleol.

# Merched y Wawr Caerdydd

Gofynnwyd i wirfoddolwyr o'r gangen wneud pice ar y maen i'w cyflwyno i Ganolfan Oasis Caerdydd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Cawsant groeso cynnes a gwerthfawrogwyd eu hymdrechion – a daeth Jên Dafis yn ei gwisg Gymreig i ddathlu'r achlysur.



Yng nghyfarfod mis Mawrth, daeth Kate Griffiths i laesu ein cyhyrau drwy gynnal sesiwn Ioga Cadair. Mae Kate yn berchen ar y cwmni Ioga Pili Pala sy'n cynnig ioga i bobl o bob oedran, ac yn benodol i blant 3-11 oed. Mae'n rhedeg sesiynau (yn Gymraeg yn bennaf) mewn ysgolion a chanolfannau cymunedol a rhoddodd enghreifftiau o sut roedd plant wedi cael budd o'r profiadau hyn, yn enwedig plant â syndromau a chyflyrau meddygol anodd. Ei nod yw grymuso pobl ifanc i deimlo'n gryfach, yn iachach ac yn hapusach drwy ioga.

Ac yna, dyma sesiwn ioga cadair i ninnau, aelodau MyW Caerdydd. Yn gyntaf, buom yn canolbwyntio ar anadlu ymwybodol, sy'n hollbwysig wrth wneud ioga. Mae ioga yn ein helpu i greu cytgord rhwng y meddwl a'r corff trwy ddysgu sut i ymlacio a chau allan yr holl feddyliau sy'n rasio o gwmpas ein pennau. Y cam nesaf oedd gwneud ymarferion i laesu a chryfhau'r corff. Buom wrthi'n estyn a rhyddhau ein holl gyhyrau – pwy fase'n meddwl bod modd llaesu llinynnau'r garrau a'r ffolennau heb godi o'r gadair!

Diweddodd y sesiwn gyda rhagor o ymarferion anadlu i dawelu'r meddwl a'r corff. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiwn yn fawr ac yn teimlo eu bod wedi cael budd o'r profiad. Ac roedd yn gwbl amlwg bod aelodau MyW Cangen Caerdydd yn griw reit heini – ni fethodd neb â chyflawni'r un ymarfer!

*Joy Davies*



***Cyflwyno pice ar y maen yng Nghanolfan Oasis, Caerdydd i ddathlu Gŵyl Dewi***

# Pobol y Rhigwm

Mae'n amlwg i'r testun y tro hwn, ynghyd â'r gofyn digon penagored o ran mesur, fod yn gymhelliad cryf i'r rhigymwyr fagu stêm ar hyd cledrau'r creu. Digon amrywiol yw'r deg gorsaf fach o bennill i'r beirniad alw heibio iddyn nhw, ond roedd hi'n werth ymweld â phob un. Cefais i'n sicr fy mhlesio gan ddychymyg a gwreiddioldeb yr holl gystadleuwyr, ac mae safon uchel ar y brig. Cyn manylu ar y pum cynnig gorau, dyma air am y gweddill, yn y drefn y ces i nhw:

Triban cywir ei sillafau a ffraeth ei ergyd sy gan *Traed*. Gwaetha'r modd, mae lleoliad yr odl gyrch yn y linell glo ychydig yn wamal (gydag ymadrodd fel 'myn uffarn i', mae rhywun yn naturiol yn clywed y saib ar yr 'i'). Ymgais a'm difyrrodd, serch hynny! Diolch i *Teithiwr Arall* am bennill bach gweddus, hynod ddarllenadwy – yr unig ymgeisydd i adleisio T.H. Parry - Williams! "Yn y Stadiwm lawr yr hewl mae'r trên i Ebargofiant", meddai *1468*, mewn pennill sy'n llwyddo i fynegi gwirioneddau bywyd yn gynnil. Nawrte, mae *Marcel*, *Padi* a *Tomos* fel ei gilydd wedi cynnig penillion penrydd, sef – hyd y cofiaf – y tro cynta imi gael cynigion o'r fath ers cymryd yr awenau gyda'r golofn hon! Mae hynny i'w groesawu, ond mae'r *vers libre*, cofiwch, yn gofyn am gymaint o ddisgyblaeth â cherddi caeth. Mae'n rhaid dethol y geiriau mwyaf cymwys i ddelweddu mewn ffordd gynnil, ac mae'r penillion o eiddo'r tri uchod yn ddiamheuol wedi llwyddo yn eu cynildeb (er, efallai bod ychydig yn ormod o amwysedd, ar brydiau). Mae ôl meddwl arnyn nhw, yn hytrach na dim ond taflu geiriau at ei gilydd blith-draphlith. Cynnig *Marcel* sy'n ergydio gryfaf (mwy yn y man), ond mae hanes *Padi* yn gresynu am golli'r trên i Wexford yn harbwr Rosslare, a stori fer o bennill *Tomos* am dynged hwylyrrwr ar gyffuriau, wedi'u saernïo'n grefftus.

Dyma nesáu at y brif orsaf, ac mae'r pum ymgeisydd nesaf – fel golygfeydd trawiadol drwy ffenest y cerbyd – yn haeddu cael eu llwyfannu. Dau driban sy'n cael y sylw'n gyntaf, ac mae'r ddau'n gwbwl gywir ac esmwyth eu mydryddiaeth. Mae'r naill a'r llall, hefyd, wedi llwyddo i gyfleu digwyddiadau hanesyddol adnabyddus heb fod yn rhy uniongyrchol, na syrthio oddi ar y cledrau'n ystrydebol, fel petai! Dyma driban i'n sobri gan *Bro Deri*:

Os distaw yw y cledrau,
Fe glywir hen weddïau
Yng ngorsaf atgo' wrth y fil
Gan hil ar siwrne'r angau.

*Bro Deri*

Mae'n amlwg – heb fod yn rhy amlwg – pa drên sy o dan sylw yma. Wyth deg mlynedd a mwy wedi'r Holocost, mae'n dal i gorddi'r emosiwn, ac mae *Bro Deri* wedi sianelu hynny i'r dim, yn barchus o dawel. Mae gan *Llanrhystud Road* yn ogystal, driban gorffenedig, sy'n cyfeirio at effaith toriadau'r fwyell enwog honno i reilffyrdd gwledydd Prydain yn y chwedegau:

Bu Tomos yn frenhinol
Ar gledrau y gorffennol,
Ond holltodd Beeching ben y daith
A gadael craith gymdogol.

*Llanrhystud Road*

Mae triban *Llanrhystud Road* yn enghraifft wych o'r modd y gall dethol geiriau – weithiau, geiryn unigol – greu barddoniaeth gofiadwy. Dim ond naw sill ar hugain sy mewn triban, ond mae geiriau ac ymadroddion megis "holltodd" a "chraith gymdogol" yn adleisio effaith haniaethol a ddiriaethol y cyfnod i'r dim, ac mae defnyddio enw Tomos y Tanc yn y llinell agoriadol wedi llwyddo'n ardderchog i bersonoli'r injans stêm oedd yn annwyl i gynifer o bobl. Byddai "bu'r trenau yn frenhinol" yn wanach o lawer.

Rhaid yw canmol ymdrechion *Bro Deri* a *Llanrhystud Road* yn fawr. Mae'r ddau'n dribanwyr o'r radd flaenaf, ac rwy'n teimlo fy hun yn gwerthfawrogi eu cynigion yn fwy fyth, wrth deipio'r feirniadaeth hon! Mewn mis gwannach, fe fyddai'r ddau wedi cyrraedd y brig, heb amheuaeth. Fodd bynnag, mae tair stop ar ôl!

Yn rhyfedd digon, mae dau englyn ysgafn ymysg y tri gorau y tro hwn. Llongyfarchiade i'r ddau englynwr, achos yn fwy aml na heb, mae'n anoddach creu englyn ysgaf, gwirioneddol ddoniol, nag englyn arferol. Mae gan *Fel y mae* gynnig gwych:

Mae tryblith yn Heath, a'r parhad i'r Bae
ar y bws, ond "dynad
ar y rheils" yw'r eglurhad.
Gwyddom y bu digwyddiad.

*Fel y mae*

Dyma bennill dychan go iawn i'r drwgenwog "*rail replacement bus service*"! Mae'r cyfan wedi'i fynegi mor rhwydd (ar gynghanedd, cofiwch!) "dynad ar y rheils" yn ddweud doniol, a rhwystredigaeth y llinell glo, sy'n sefyll wrthi'i hun, yn rhywbeth y gall unrhyw un sy wedi profi'r fath fath sefyllfa uniaethu â hi! Mewn mis cryf, mae'n rhaid i feirniad fynd yn groes i'w anian radlon, gan hollti blew! I fi, *Fel y mae*, mae angen ateb yr 'r' yn 'parhad' (felly rhywbeth fel 'daw tryblith i'r Heath...').

Dyma ddod nawr at y pennill *vers libre* gorau, sef pennill iasoer o eiddo *Marcel* i orsaf reilffordd Austerlitz, Paris, yn 1942:

Dywed y swyddog
taw hon yw'r daith i ryddid.
Lladd milwr rywbeth
fel cleren ar ei ysgwydd.

*Marcel*

Mae *Marcel* yn fardd go iawn. Dyma enghraifft ddisglair o'r cynildeb a'r dethol gofalus o eirau'r oeddwn yn cyfeirio ato gynnau. Yr un yw thema *Marcel* â *Bro Deri*, dim ond bod y cynnig hwn yn codi i lefel arall. "*Arbeit macht frei*" oedd arwyddair dychrynllyd Auschwitz, ac mae adlais dychrynllyd o hynny yn y ddwy linell agoriadol. Y ddwy linell glo sy wedi fy llorio. Roedd bywydau'r Iddewon ar y trên yn gyfystyr â bywyd cleren i'r milwyr a oedd yn eu tywys. Dyma ogwydd cwbwl wreiddiol ar thema oesol. Mae pennill *Marcel* yn syfrdanol o grefftus, a chyfuwch ag unrhyw englyn.

Dyma neidio i'r pegwn arall gydag englyn ysgafn *Trenau Arafa' Cymru*:

Oedd hi'n artaith pan deithioch — o Lanfair
ar lein fach? Os gwylioch
yr arwyddion, gyrhaeddoch
Lantysilio-gogo-goch?

*Trenau Arafa' Cymru*

Dyma berl o englyn! Mae *Trenau Arafa' Cymru* wedi chwarae ar y gŵyn fythol honno am drenau llyffeitheiriol ein gwlad! Mae yma englynwr a chynganeddwr tra chrefftus (da gweld bod y Lusg wyrdro'n fyw ac yn iach!), achos mae'r cyfan yn darllen yn ddiymdrech – credwch chi fi, mae'n anodd cyflawni hynny! Mae englyn ar ffurf dau gwestiwn, hefyd, yn dechneg gref. Fodd bynnag, y syniad sy wedi cydio ynof yn fwy na dim! Mae meddwl am drên sy mor araf, hyd nes ei fod yn methu â chyrraedd pen arwydd hirfaith Llanfair PG yn ddigrif tu hwnt! Mae'r llinell glo'n neilltuol. Mae 'Llantysiliogogogoch' yn gynghanedd Sain ar ei hyd! Tybed sawl cynganeddwr fydde wedi gweld y potensial yn hynny? Dyma feddwl creadigol gyda'r gallu i greu englyn gwirioneddol grafog – ardderchog!

Wel wir, beth yn y byd mae beirniad i'w wneud gyda dau gynnig mor eithriadol – ond yn gwbwl i'r gwrthwyneb i'w gilydd o ran thema a mesur – sy'n llwyr deilyngu'r wobr gynta? Dydw i ddim am ddechrau'r arfer o rannu'r wobr (mae'n bosib na fydde hynafgwyr y *Dinesydd* yn caniatáu hynny, ta beth!). Na, rhaid wrth un buddugwr, ysywaeth! Hmmmm... Iawn! Mae dyfeisgarwch *Trenau Arafa' Cymru* filimedr yn agosaf i fympars yr orsaf, felly llongyfarchiadau iddo, ond diolch o waelod calon i *Marcel*, hefyd, am chwip o bennill.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Mawrth**
**Alan Iwi, Didcot**

**Cystadleuaeth mis Ebrill**

**Triban**, yn cynnwys y llinell
"mewn ennyd, mae'n wanwynol"

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Ebrill at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Merched y Wawr Bro Radur

**Noson Siaradwyr Newydd y Gymraeg**

Ysbrydoliaeth bur a gawsom yn ein cyfarfod ar Fawrth 5ed. Noson siaradwyr newydd oedd hi. Gyda'r ystafell dan ei sang, a dynion yn westeion ychwanegol, ein siaradwyr oedd Natasha Baker a Yuqi 'Morwenna' Tang.

Yn wreiddiol o Fryste, ar ôl astudio'r Gyfraith a Ffrangeg, aeth Natasha i fyw yn Ffrainc. Wedyn symudodd i Gymru a chael swydd yng Nghaerdydd yn cynnig cyrsiau Sbaeneg a Ffrangeg. Roedd hi a'i theulu yn byw yng Nghasnewydd, a sylwodd Natasha bod galw am gyrsiau yn y Gymraeg ond bod prinder o gyfleoedd i wneud hynny. Felly, ar ôl dau gwrs, 'Kidslingo' a 'Duolingo', ffurfiodd fusnes o'r enw 'Wibli Wobli,' ac iddo'r eicon o octopws. Meithrinfa i blant bach a'u rhieni oedd y fenter ac roedd yn llwyddo'n effeithiol nes, yn anffodus, llosgwyd yr adeilad i'r llawr yn 2023. Er gwaetha'r argyfwng erchyll yma, daeth lles ohono. Oherwydd yr holl hysbysrwydd a gafodd yr hanes yn y wasg a'r cyfryngau, cafodd Natasha grant i ailadeiladu'r busnes. Mae'r adnoddau newydd modern gymaint yn well. Nawr mae Natasha yn cynnig blociau o wersi Cymraeg ar gyfer plant bychain. Hefyd mae'r rhieni yn dysgu gyda'u plant.

Yuqi 'Morwenna' Tang oedd yr ail i siarad. Soniodd am ei magwraeth yn Shanghai yn siarad iaith y ddinas a Mandarin ac yna Saesneg ym mlwyddyn 3 yn yr ysgol. Bywyd cystadleuol iawn oedd yno ond, er hynny, llwyddodd Morwenna i ragori. Enillodd radd Meistr mewn Busnes yn Hong Kong, ac wedyn yng Nghymru cafodd ragoriaeth yn y Gymraeg.

Mae gŵr Morwenna yn Gymro, ac yn 2019 fe symudon nhw i Gymru. Doedd Scott ddim wedi siarad Cymraeg ers ei blentyndod, a chredai Morwenna mai iaith ar bapur, fel Lladin, oedd y Gymraeg. Pan glywodd hi siaradwyr yn defnyddio Cymraeg gyda'i gilydd yn Sain Ffagan, roedd hynny'n agoriad llygad iddi. Wedyn fe sylweddolodd fod yr iaith i'w chlywed ar y teledu a'r radio.

Adeg y Clo oedd hi pan gafodd hi help mawr i ddysgu'r eirfa a'r cystrawennau newydd gan Mair, dynes 80 oed o Gastellnewydd Emlyn a siaradai ag acen ddeheuol. I Morwenna, daeth Cymru yn wlad hyfryd ag iddi iaith ecsotig a dirgel. Mabwysiadodd enw newydd, sef Morwenna, ar ôl un o deulu Scott.

Mwynhau nofelau T. Llew Jones a'i helpodd hefyd i siarad Cymraeg, a nawr mae ei gŵr a'u dau fab bach yn siarad yr iaith yn naturiol yn y cartref. Mae'r plentyn hynaf erbyn hyn yn mynychu sesiynau Stori a Chân yn Ysgol Gynradd Groes-wen, Plasdŵr.

Ar ddiwedd y ddau gyflwyniad, gofynnwyd nifer o gwestiynau difyr gan y gynulleidfa. 'Beth oedd y peth anoddaf pan oeddech yn dysgu'r iaith?' Eu hateb oedd 'Treigladau!', ond daeth y rhain yn fwy naturiol gydag ymarfer, meddai'r ddwy. Noson i'w chofio yn wir oedd hon gyda danteithion blasus a phaned i gloi.

*Mary Nicholas*


*'Morwenna' a Natasha*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. ***Datganiad y Gwanwyn*** - dyma'r prif benawdau o ddatganiad y Canghellor ar 26 Mawrth 2025:
    a. Dim cynnydd ychwanegol yng nghyfraddau ***treth incwm, TAW nac Yswiriant Gwladol*** (i weithwyr).
    b. Rhagolygon bod y ***twf yn economi'r wlad*** eleni wedi'i haneru o 2% i 1%.
    c. Dim newidiadau i ***lwfansau Cyfrifon Cynilo Unigol*** (ISAs), ond gyda nodyn efallai y bydd hyn yn newid yng Nghyllideb yr Hydref.
    d. ***Cynnydd mewn cosbau am dalu TAW neu treth incwm yn hwyr*** - o fis Ebrill 2025, bydd cyfraddau cosb newydd o 3% o'r dreth sy'n ddyledus os yw'r taliad 15 diwrnod yn hwyr, gyda 3% arall os yw'r taliad 30 diwrnod yn hwyr ac os yw'n fwy na 31 diwrnod yn hwyr bydd y cyfradd yn codi i 10%. Cofiwch am ddyddiadau cau taliadau treth!
2. ***Gwneud Treth Incwm yn Ddigidol*** - mae'r Swyddfa Dreth yn cyflwyno canllawiau newydd bydd yn ei gwneud hi'n ofynnol, o Ebrill 2026 ymlaen, i unigolion hunangyflogedig a landlordiaid i gyflwyno diweddariadau o'i hincwm a'i gwariant i'r Swyddfa Dreth ***bob chwarter***.

    Bydd hyn yn newid mawr i nifer o drethdalwyr ac rydym wedi asesu'r canllawiau newydd yn llawn. Ceir y wybodaeth ar y newidiadau yma ar ein gwefan sef, https://huwaledaccountants.com/

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy: Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

***<u>Cwestiynau Huw ac Aled</u>***

***C:*** *Beth sy'n digwydd i ystâd unigolyn sy'n marw heb ewyllys? A yw'n wir y gall y Goron hawlio ystâd rhywun os nad oes ganddynt unrhyw berthnasau?*

***A:*** Nid oes ewyllys gan dros hanner o bobl Prydain ac os ydych yn marw heb ewyllys, bydd eich ystâd yn cael ei rannu yn unol â chanllawiau 'diffyg ewyllys' neu '*intestacy*'. Fel arfer, gall partneriaid priod/sifil a rhai perthnasau agos etifeddu ystâd unigolyn o dan y canllawiau hyn.

Os nad oes unrhyw berthnasau agos ganddynt ar ôl a all etifeddu'r ystâd, mae'r ystâd yn cael ei drosglwyddo i'r Goron. Gelwir hyn yn ***'bona vacantia'***.

Credir bod tua 6,000 o ystadau heb eu hawlio yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd.

Lle nad oes perthynas agos amlwg, ambell waith mae cwmnïau yn cael eu cyflogi i geisio dod o hyd i berthnasau pell, a gall y perthnasau hyn gyflwyno cais i hawlio'r ystâd.

Mae angen cyflwyno unrhyw geisiadau tebyg o fewn 30 mlynedd o ddyddiad marwolaeth yr unigolyn (oni bai eich bod chi'n byw yng Nghernyw).

Oherwydd hen gyfraith o'r Oesoedd Canol, os bydd person yng Nghernyw yn marw heb ewyllys, a heb berthnasau ar ôl, mae'r ystâd yn mynd yn syth i Dywysog Cymru. Mae rheol debyg hefyd ar waith yn ardal Lancaster, lle mae'r ystâd yn mynd yn syth i Ddugiaeth Caerhirfryn ('*Duchy of Lancaster*'), sy'n eiddo i'r Brenin.

Y ffordd orau i leihau unrhyw gymhlethdodau gyda'ch ystâd yw i drefnu ewyllys ddilys.

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun Mawrth 3ydd, daeth ein aelodau ynghyd i ddathlu Gŵyl Dewi wrth gael pryd o fwyd blasus yng Nghlwb Golff Yr Eglwys Newydd. Croesawyd pawb i'r swper ac yn arbennig ein gŵr gwadd am y noson sef Rhys Ruggerio. Dechreuwyd y noson gyda'n Llywydd Anrhydeddus Gwilym Roberts yn adrodd gweddi gras bwyd, ac yn fuan iawn daeth y cwrs cyntaf. Mwynhawyd y pryd bwyd yn fawr, ac wrth ddiolch llongyfarchwyd staff y gegin am y safon.

Wedi hynny daeth cyfle i Rhys Ruggerio siarad a chanu, ac aeth â ni'n hamddenol drwy sgwrs a chân am ei yrfa hyd yn hyn, a'i gysylltiadau â Gogledd Cymru a'r Eidal. Bellach mae Rhys yn Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngholeg y Cymoedd, ac yn byw yma yng Nghaerdydd, ond wedi cael cyfleoedd i deithio a pherfformio gyda Ysgol Glanaethwy ac yng Ngholeg Mount View, Llundain.


Roedd ei ddewis o ganeuon yn bersonol iddo fo ac yn rhan o daith ei fywyd, ond yn ganeuon poblogaidd cyfoes a oedd yn plesio'r gynulleidfa'n fawr.


Diolchodd ein Cadeirydd Iona Edwards i bawb am ddod ac yn arbennig i Rhys am ein diddanu mewn modd hyfryd.



***Rhys Ruggerio***

## Rhif: 251



**Ar Draws**

7. ' Tyrd, fy Anwylyd, mae'n hwyrhau,
   A'm ----- ----- ----- ----- lawr' (WW) (4,4,4,1)
8. Copa Defi ar ddechrau'r gaeaf yn edrych fel un gŵr bonheddig (8)
9. Dial rywsut ar y tyfiant (4)
10. Y digwyn yn troi am y dafarn (6)
12. Arbennig dyrfa yn llanw eu hysgyfaint (6)
14. Crwtyn ifanc am ddechrau mynd i reiat leol arall nes callio (6)
16. Chwenychu wna dwy am fuan ffoi ar yn ail (6)
18. Pum can acer o goed (4)
20. Gwneud dy ffordd gyda y pum deg a mwy i'r ardal (8)
22. 'Fe roes ei ----- ----- ----- -----,
   Fe wisgodd goron ddrain' (WW) (5,3,2,3)

**I Lawr**

1. Ble a dryw i ffeindio cantorion? (8)
2. Gwasgu'r blodigyn i'w wneud yn fwy (6)
3. 'Newyddion ----- a ddaeth i'n bro
   Hwy haeddent gael eu dwyn ar go' (JD) (4)
4. 'Mae Craig yr Oesoedd dan fy nhraed,
   A'r melt yn diffodd ----- ----- -----' (WJ) ( 2,1,5)
5. Hyd arf yn creu beiddgarwch (6)
6. Mae rhywbeth mewn difrod lindys sy'n seinio'n debyg (4)
11. Cwyn y mop pan mae yn syrthio (2,6)
13. 'Mawr ym Methlem a Chalfaria
   Mawr yn dod i'r ----- ----- -----' (anad) (3, 1'1,3)
15. Mwytho rhywbeth a wlân am ganol dyn (6)
17. Modrwy yn peri dryswch (6)
19. Cael lles ymhlith y delwau (4)
21. Cerbyd mawr yn sownd ar ben draw heol go fyr. Trueni! (4)

**Enillydd Croesair Rhif 249**

**Sion Lewis, Cydweli**

**Atebion Croesair Rhif 249**

**Ar Draws**

6. Neithiwr 7. Cwart 9. Carol 10. Lloergan
12. Caerliwelydd 14. O hyd mewn cof 18. Anghofio
19. Megan 21. Seler 22. Mynyddau

**I Lawr**

1. Neuadd 2. Athrofa 3. Awr 4. Chwarae
5. Ardalydd 8.Moliant 11. Troedio 13. Ehangder
15. Diogel 16. Olewydd 17. Dafad 20 Llys

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mai, 2025
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# Cymrodorion Caerdydd

Cafwyd noson arbennig ar nos Iau 20fed Mawrth i ddathlu Gŵyl Dewi yn yr Hen Lythyrdy, Sain Ffagan.

Difyrrwyd Cymrodorion Caerdydd yn dilyn y pryd bendigedig gan straeon a hanesion Sian Meinir ym myd cerdd. Canwyd dwy gân ganddi a swynwyd y cynulliad gan ei dawn gerddorol.

Yn y llun gwelir o'r chwith i'r dde: Alwyn Evans (trysorydd), Bill Jones (is lywydd), Sian Meinir, E Gwynn Matthews (llywydd anrhydeddus), Ion Thomas (ysgrifennydd).



Gyda'r Pasg yn agosáu, dyma gip ar weithgareddau Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn ystod y mis i ddod.

**Ffitrwydd gyda Ffrindiau 75+ (bob yn ail fore Gwener, 11.00yb)**

Diolch i'n partneriaeth gyda Re-engage, bydd y sesiynau ffitrwydd rhad ac am ddim ar gyfer y rhai dros 75 oed yn parhau am flwyddyn arall. Mae'r criw yn cwrdd bob yn ail fore Gwener yn y Ganolfan Chwaraeon yng Ngerddi Soffia dan arweiniad yr hyfforddwraig ffitrwydd brofiadol, Anna Reich. Dyma ddosbarth sy'n cynnig cyfle i gadw'n heini mewn awyrgylch gyfeillgar ac anffurfiol. Cyn mynychu sesiwn, rhaid cofrestru trwy wefan Re-engage. Cysylltwch â rachel@mentercaerdyd.cymru am ragor o fanylion.

**Tai Chi – Dosbarth Newydd (prynhawn Llun, 3.00yp)**

Byddwn yn cynnal cwrs blasu wyth wythnos o hyd o ganol Mai fydd yn cyflwyno Tai Chi Shibashi Lefel 1. Cynhelir y sesiynau yn Hyb Rhydypennau am 3.00, yn syth ar ôl y dosbarth hir-dymor lefel uwch. Does dim angen unrhyw brofiad o Tai Chi i gymryd rhan ac mae'r gwersi'n addas ar gyfer oedolion o bob oed. Mae'r niferoedd yn gyfyngedig felly ewch i'r wefan i gofrestru!
**Cost am dymor 8 wythnos:** £40.

**Sgwrs y Mis, nos Lun, 28 Ebrill (7.30yh ar Zoom)**
Mae Myrddin yn enwog trwy'r byd i gyd fel y dewin doeth sy'n cynghori'r Brenin Arthur. Ond tybed ai dyma'r stori gyfan? Yn sgwrs mis Ebrill, bydd Dr David Callander o Brifysgol Caerdydd yn datgelu gwedd arall ar y 'Myrddin' a gawn mewn barddoniaeth gynnar Gymraeg. Yma mae Myrddin yn broffwyd ac yn ddyn gwyllt sy'n byw yn y coed, ac Arthur yn gwbl absennol. Os nad ydych yn derbyn y ddolen Zoom yn fisol, ewch i'r wefan i gofrestru.
**Cost:** £5 y sesiwn / £20 am y flwyddyn.

**Ymweliad â'r Deml Heddwch (dydd Mawrth, 6 Mai,10:30)**

Mae'r cofrestru wedi agor ar gyfer ein taith dywys nesaf ar ddechrau Mai. Y tro hwn, byddwn yn ymweld ag adeilad hardd Y Deml Heddwch ym Mharc Cathays. Yng nghwmni tywysydd, cawn gyfle i grwydro'r ystafelloedd amrywiol a chlywed hanes sefydlu'r Deml a'i phwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r niferoedd yn gyfyngedig felly cofiwch gofrestru'n fuan!
**Cost:** Am ddim.

**Gweithgareddau Gwyliau'r Pasg i blant oed cynradd**

Gyda'r gwyliau'n prysur agosáu, mae criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg wedi trefnu llu o weithgareddau hwyliog i gadw aelodau ifanc y teulu'n hapus. Bydd y cynllun Gofal yn cael ei gynnal yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd (£32 y dydd) a'r Clwb Gofal yn rhedeg yn Ysgol y Berllan Deg (£28 y dydd). Yn ôl yr arfer, bydd ein sesiynau chwarae agored, Bwrlwm, yn cynnig ychydig oriau o hwyl, yn rhad ac am ddim, mewn amryw o leoliadau o gwmpas y brifddinas a'r Fro. Ewch i'r wefan am fwy o fanylion. Bydd ein sesiynau Amser Stori ar gyfer y plant lleiaf yn cymryd pythefnos o hoe dros y gwyliau ond yn dychwelyd ar ddiwedd mis Ebrill.

**Mewn Tiwn**

Rydym yn falch o gyhoeddi dyddiadau dwy gyngerdd yng Nghanolfan Beulah, diolch i nawdd gan 'Grant Loteri Tŷ Cerdd'. 'Dwy' fydd yn dychwelyd atom fore Llun, 9 Mehefin ar gyfer cyngerdd yn ystod wythnos Ffrinj Tafwyl. Bydd y chwiorydd, Enlli a Lleucu Parry, yn ein diddanu gydag arlwy arbennig ar y ffliwt. Yna, ar fore Llun, 15 Rhagfyr, y delynores Bethan Nia fydd yn ymuno â ni i ddathlu'r Nadolig gyda chyngerdd llawn ysbryd yr ŵyl.

**Siaradwyr Newydd**

Dydd Gwener, 25 Ebrill yw dyddiad y bore coffi nesaf ar Zoom ar y cyd â Dysgu Cymraeg Caerdydd. Mae'r boreau coffi rheolaidd yn yr hybiau yn mynd o nerth i nerth gyda chriw Rhydypennau yn cwrdd bob yn ail fore Iau a'r grŵp i ddysgwyr lefel Mynediad yn Hyb Rhiwbeina yn cwrdd bob yn ail fore Gwener yn ystod y tymor ysgol. Mae grŵp sgwrsio'r Hyb Ganolog yn parhau bob prynhawn Iau. Byddwn yn lansio bore coffi Cymraeg yn Hyb Llaneirwg ar ddechrau Mehefin.
Os oes gennych awr i sbario i wirfoddoli, cofiwch gysylltu. Mae cyfleoedd ar gael i helpu'n rheolaidd neu yn achlysurol. Byddem yn gwerthfawrogi pob cymorth i ddatblygu ein cynllun o weithgareddau drwy'r ddinas ar gyfer siaradwyr Cymraeg o bob lefel.

Am fwy o fanylion am ein sesiynau ar gyfer oedolion, ewch i:
mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion
I ddarllen mwy am ein gweithgareddau i blant, ewch i:
mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: @mentercaerdydd / @menterbromorgannwg
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## Cyflwyno Gwyddoniaeth i'r Ifanc



Ers cwblhau doethuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg y mae Bedwyr ab Ion Thomas, sy'n wreiddiol o Gaerdydd, wedi dechrau cyflwyno gwyddoniaeth i blant a phobl ifanc. Mae'n credu fod y gallu i gyfleu syniadau cymhleth mewn ffyrdd dealladwy yn sgil bwysig i wyddonwyr.

Dywedodd, "Cyn dechrau paratoi cyflwyniad am fy ngwaith ymchwil, dw i wastad yn ystyried pwy fydd yn gynulleidfa a sut alla i gyflwyno'r pwnc mewn ffordd sy'n berthnasol neu'n ddealladwy iddyn nhw. Dw i'n gwybod fod rhai pobl ifanc yn cadw'n glir o wyddoniaeth a mathemateg am nad ydynt yn ei weld yn berthnasol i'w bywydau. Ac er bod rhaid deall y pethau sylfaenol mewn gwyddoniaeth, mae'n rhaid hefyd ei wneud yn ddiddorol i bobl ifanc gan ddangos pam ei fod yn bwysig a sut allwn ni ei ddefnyddio yn ein bywydau bob dydd."

Ac mae'r awydd yma wedi arwain at gyfleoedd i Bedwyr – gan gynnwys cyflwyno rhaglen wyddonol i blant 8 – 13 oed o'r enw PwySutPam? ar S4C.

Ychwanegodd, "Ro'n i'n blentyn chwilfrydig fy hun, wastad yn gofyn 'pam?' ac eisiau deall sut oedd pethau yn gweithio a dyna ydym ni yn ceisio ei wneud ar y rhaglen. Doedd dim rhaglen debyg ar y teledu pan oeddwn i yn fach, felly cafodd fy natur chwilfrydig i ei atgyfnerthu gan gyfnodau hir yn darllen, edrych ar fapiau a chwarae gyda Lego."

Wrth drafod ei benderfyniad i wneud doethuriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg gyda Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau Prifysgol Caerdydd, dywedodd Bedwyr, "Roedd ambell un yn cwestiynu fy newis i wneud doethuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Doedden nhw methu gweld y pwynt gan mai 'Saesneg ydy iaith ryngwladol gwyddoniaeth'. A byddwn innau wedyn yn ateb trwy ddweud y bydd na wastad le i'r Saesneg fel iaith gyffredin i rannu syniadau a safbwyntiau ond ei bod yn bwysig fod pobl yn cael cyfle i astudio yn eu mamiaith yn eu gwlad eu hunain. Yn ogystal, dychmygwch y potensial pe byddai rhyddid i fynegi a thrafod syniadau mewn ieithoedd ag eithrio'r Saesneg – gallai'r darganfyddiadau a'r creadigrwydd fod yn syfrdanol o gael mynegi syniadau, cysyniadau a theimladau yn eu mamiaith."

Mae Bedwyr newydd gychwyn ar swydd fel Swyddog Cangen i'r Coleg Cymraeg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac yn edrych ymlaen i gefnogi myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Y mae'n ddiolchgar am y gefnogaeth ariannol ac ymarferol a gafodd gan y Coleg Cymraeg. "Un o'r pethau cyntaf wnes i wrth gychwyn fy noethuriaeth oedd mynd ar gwrs sgiliau ymchwil gyda'r Coleg. Roedd hynny yn werthfawr iawn gan i ni ddysgu sgiliau megis creu posteri academaidd, rheoli pwysau gwaith a chael cyflwyniad i adnoddau defnyddiol megis Cysgair a'r Geiriadur Ar-lein. Sgiliau ymarferol i wneud fy ymchwil yn Gymraeg. Ces i hefyd gyfleoedd i gyflwyno mewn cynadleddau ymchwil a gwyddonol ac roeddwn yn llysgennad ôl-radd i'r Coleg am ddwy flynedd. Rwy'n teimlo ffodus iawn o'r gefnogaeth a'r cyfleoedd ges i gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol."

---

## Y DIGWYDDIADUR

### Mai

**Sadwrn, 17 Mai**
Gŵyl Fach y Fro ar Ynys y Barri rhwng 11.00am ac 8.00pm.

**Llun, 19 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Russell Isaacs ar y testun 'Newyddion Ddoe, sy'n dychwelyd o hyd', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifenyddd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Iau, 22 Mai**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan yr Athro Deri Tomos (Prifysgol Bangor) ar y testun 'Kyffin, Coch a Melyn'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 29 Mai**
Menter Caerdydd yn cyflwyno 'Laffwyl!' yn nhafarn Parc Fictoria (CF5 1JL) am 7.30pm. Tocynnau (£10): www.mentercaerdydd.cymru (neu £12 wrth y drws).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

### Aled Biston sy'n cloriannu misoedd diwethaf llwyddiannus Clwb Cymric

Ers mis Ionawr mae Clwb Cymric wedi bod ar rediad cadarnhaol yn y gynghrair, gan golli dwy gêm yn unig. Ar adeg ysgrifennu'r darn hwn mae'r clwb yn ail yn y gynghrair ac yn llygadu dyrchafiad i Uwch Gynghrair De Cymru am y tro cyntaf yn ei hanes.

Wedi siom yng Nghwpan Cymru yn erbyn Llanelli fe aeth Cymric ar rediad sâl ym mis Tachwedd gan ennill ond un gêm mewn saith yn y gynghrair a dwy golled i Afan sydd ar frig y gynghrair.

Ond ers diwedd mis Ionawr mae'r clwb wedi ennill chwe gêm allan o chwech yn y gynghrair gan olygu ei bod yn eistedd yn yr ail safle. Yn ystod y rhediad hwnnw roedd goliau yn hedfan i gefn rhwyd eu gwrthwynebwyr gyda 33 o goliau yn cael eu sgorio. Ar ochr arall y cae roedd yr amddiffyn yn gadarn hefyd wrth i Cymric ildio un gôl yn unig yn y gynghrair yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dechreuodd y goliau hedfan gyda buddugoliaeth (4-0) yn Aberdâr yn Ocean Park Arena. Parhau wnaeth y perfformiadau campus gyda dwy fuddugoliaeth (6-0) yn erbyn Tredelerch a Trefforest. Fe ddaeth saib o'r gynghrair wedi'r gemau hynny, ac ymweliad Port Talbot o'r drydedd haen i Ocean Park yng Nghwpan De Cymru. Ond roedd unrhyw obeithion am fuddugoliaeth wedi cael eu chwalu wrth i'r ymwelwyr ennill (3-1).

Ni adawodd y chwaraewyr i'r canlyniad hwnnw eu digalonni, wrth iddyn nhw daro wyth gôl yn erbyn Cwmbach wythnos yn ddiweddarach. Gêm ddiwethaf y clwb oedd trip i herio Vale United, oedd yn gyfartal ar bwyntiau gyda Cymric, a byddai buddugoliaeth yn golygu y bydden nhw yn neidio uwchben Cymric i'r ail safle.

Er nad oedd tîm rygbi Cymru ar eu gorau ar 'Super Saturday' roedd Cymric yn sicr yn gwneud eu rhan i wneud eu dydd Sadwrn yn wych trwy ennill (7-1) ac ymestyn y bwlch rhyngddynt â Vale United i driphwynt.

Pum gêm sydd yn weddill i Cymric ar yr adeg ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, dwy ornest yn erbyn Bettws ac yna gemau yn erbyn Cardiff Cosmopolitan, Dinas Powys a Vale United eto ar ddiwrnod olaf y tymor.

